# CYNLLUN TAIR BLYNEDD CYNGOR GWYNEDD

# 2011-2014

## 1. CYFLWYNIAD YR ARWEINYDD A'R PRIF WEITHREDWR

Mae cynllunio ymlaen ar adeg heriol yn anodd ond, serch hynny, yn gwbl allweddol.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwybodol iawn o'r angen i ymateb i'r cyd-destun ariannol sydd yn ein wynebu ac rydym eisoes wedi cychwyn ar y gwaith o gyfarfod â'r her ariannol o ganfod y diffyg ariannol o tua £38 miliwn yn ein cyllideb rhwng 2011/12 a 2014/15.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn esgus i grebachu o ran ein meddylfryd a'n disgwyliadau. Rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol o ran y Cyngor a'r Sir ac yn parhau i anelu at ein nod o geisio'r "Gorau i Bobl Gwynedd, Heddiw ac Yfory". Nod y Cynllun hwn yw datblygu a manylu ar yr uchelgais hynny a cheisio bod mor eglur â phosib am yr hyn yr ydym yn dymuno ei wireddu i drigolion y sir.

Rydym yn cymeradwyo'r Cynllun hwn i'ch sylw





Dyfed Edwards
Arweinydd y Cyngor





Harry Thomas
Prif Weithredwr

## 2. PARATOI'R CYNLLUN

Mae'r Cynllun Tair Blynedd yn ddogfen allweddol i'r Cyngor gan ei fod yn gynllun strategol sydd yn crynhoi'r amcanion gwella y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy dros y tair blynedd nesaf. Mae cynllunio strategol y Cyngor yn digwydd, wrth gwrs, o fewn fframwaith Partneriaeth Gwynedd ar y Cyd, y Strategaeth Gymunedol. Mae'r Strategaeth Gymunedol, y mae ymgynghori yn ei gylch yn digwydd ar hyn o bryd, wedi gosod canlyniadau lefel uchel y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio tuag atynt, sydd yn disgrifio'r pethau yr hoffai'r Bartneriaeth eu cyflawni yng Ngwynedd:-

- Ardal ble mae'r economi yn ffynnu
- Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy
- Ardal ble mae Plant a Phobl Ifanc yn Llwyddo
- Ardal byrlymus i fyw gyda chymunedau diogel
- Ardal gydag iechyd da a'r gofal gorau yn y gymuned

Mae'r Cynllun Tair Blynedd, sydd wedi ei baratoi trwy drefniadau manwl a chynhwysol dros gyfnod helaeth o amser, yn fynegiant o gynlluniau'r Cyngor y tu fewn i'r fframwaith hwnnw.

Cychwyn y gwaith o baratoi'r Cynllun oedd asesiad trylwyr iawn o'r prif yrrwyr sydd yn dylanwadu ar y sir nawr ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf. Cyflawnwyd hwn ar y cyd â phartneriaid o dan faner y Strategaeth Gymunedol a phartneriaethau allweddol arall o fewn y sir. Arweiniodd hwn at gasgliad o ddata a gwybodaeth allweddol a oedd yn cynnig darlun ystadegol o'r her sydd yn wynebu'r sir. Golygodd hyn oll ein bod, yn gyngor ac yn prif bartneriaethau yn cyd-gynllunio ar sail yr un data.

Y cam nesaf oedd ymgynghori mewn nifer o leoliadau drwy'r sir i geisio barn grwpiau o'r cyhoedd ar y materion sydd angen sylw yn y blynyddoedd nesaf. Unwaith eto, cwblhawyd y gwaith hwn ar y cyd efo partneriaid. Golygodd hyn bod y Cyngor a'i bartneriaid yn trafod gyda thrigolion ar y cyd yn hytrach na'r tueddiad yn y gorffennol i fynd allan yn ddarniog a gofyn yr un math o gwestiynau sawl tro i'r un bobl.

Daethpwyd â'r casgliadau hynny, yn ddata a barn, ynghyd i ddylanwadu ar lunio'r chwe rhaglen unigol sydd wedi bod yn cael eu datblygu yn y Cyngor. Yn ogystal, cafwyd tri gwethdy ar gyfer yr holl gynghorwyr ac uwch swyddogion a arweiniodd, yn eu tro, at:-

- restr o brif faterion a chanlyniadau a gafodd eu cyflwyno a’u cytuno gan Fwrdd y Cyngor
- gasgliadau a negeseuon allweddol er ystyriaeth y Byrddau Rhaglen wrth iddynt baratoi cynlluniau manwl
- farn, sylwadau a mewnbwn ar waith y Byrddau Rhaglen cyn cwblhau’r cynlluniau manwl

## 3. NATUR Y CYNLLUN

Nod y Cyngor yw cynnig “Y Gorau ar gyfer Pobl Gwynedd Heddiw ac Yfory” ac mae’n gwneud hynny yn bennaf trwy ei fusnes arferol, y gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yn ddyddiol. Mae’r Cynllun hwnnw yn rhoi’r sylw pennaf i’r prif newidiadau y mae’r Cyngor ym ymrwymo iddynt trwy raglenni a phrosiectau penodol. Mae rhai ohonynt yn edrych allan ar wasanaethau i drigolion ac eraill yn galluogi’r Cyngor i fedru gwneud hynny. Mae’r deiagram isod yn crynhoi hynny:-



Mae'r gweddill o ddogfen y Cynllun yn dilyn y patrwm o gyflwyniad, fesul rhaglen, o'r weledigaeth ar gyfer y Rhaglen, esboniad o'r Canlyniad a'r Profiadau y mae'r chwe rhaglen sydd wedi eu sefydlu yn anelu tuag at eu gwireddu. Dilynir hyn gan:-

- Ddisgrifiad byr o bob prosiect ac amlinelliad fesul prosiect o'r prif fuddiant (ar gyfer 2013/14) a'r buddiannau ar hyd y daith y bwriedir eu gwireddu yn ystod 2011/12
- Amlinelliad o "ddangosyddion allweddol y rhaglenni", sydd yn ceisio mesur cynnydd y rhaglenni tuag at wireddu'r Profiadau y maent yn anelu tuag atynt

Mae'r canlyniadau ar gyfer pob rhaglen yn crynhoi Amcanion Gwella'r Cyngor a bydd modd mesur y graddau y byddwn yn cwrdd â'r amcanion gwella hynny trwy gyfeirio at ein llwyddiant yn gwireddu'r buddiannau yr ymrwymnir iddynt yn rhannau 5 i 10 isod.

Wedi hynny, cyflwynir gwybodaeth gyffelyb ar gyfer y prosiectau strategol sydd yn eistedd y tu allan i'r chwe rhaglen

Yn olaf, mae tri atodiad:-

Atodiad 1 yn dangos y "dangosyddion allweddol ansawdd gwasanaeth"

Atodiad 2 yn amlinellu'r Strategaeth Ariannol dros gyfnod y Cynllun

Atodiad 3 yn adrodd ar ddangosyddion perfformiad cenedlaethol

## 4. SYMUD YMLAEN GYDA'R GWAITH

Mae'r Cynllun hwn wedi ei lunio ar sail y gwaith a amlinellwyd uchod ond mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'r amgylchiadau cyfnewidiol y mae'n gweithio ynddynt ac mae'r Cynllun yn un byw sydd yn cael ei adolygu'n barhaus. Me adnoddau wedi ei glustnodi ar gyfer cefnogi'r prosiectau sydd wedi eu cynnwys a bydd Byrddau Rhaglen a Phrosiect unigol yn ceisio sicrhau y gwireddir y buddiannau sydd yn cael eu dangos yn y ddogfen. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad blynyddol ffurfiol i ystyried a oes angen newid cyfeiriad mewn rhyw ffordd.

## 5. CYNIGION Y RHAGLEN GOFAL AR GYFER 2011-14

### 5.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a'r Profiadau



Gwen Carrington
Arweinydd Rhaglen

Gweledigaeth y Rhaglen Gofal yw

Cyfrannu at amddiffyn y bobl mwyaf bregus yn ein cymunedau gan sicrhau ystod eang o wasanaethau iddynt sydd yn hyrwyddo eu hanibyniaeth ac yn eu cynnwys wrth gydgynllunio, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniad yr ydym am weithio tuag ato:-

- Pobl a phlant bregus yn derbyn cefnogaeth i fyw bywyd bodlon

Rydym hefyd wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- Mwy o oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw'n annibynnol yn y gymuned.
- Oedolion bregus yn cael mwy o ddewis llety addas i'w anghenion
- Plant, pobl ifanc, oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á'u hanghenion.
- Teuluoedd gydag anghenion dwys yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig i'w galluogi i fagu eu plant yn effeithiol.

5.2 Gwelir isod restr o’r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o’r hyn y maent am eu gwireddu

**Teitl y Prosiect: Gwasanaethau Pobl Hyn**

**Profiad/au:**
Mwy o oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw’n annibynnol yn y gymuned
Oedolion bregus yn cael mwy o ddewis o lety addas i’w anghenion
Plant, pobl ifanc,oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á’u hanghenion

| Gweithgareddau’r Prosiect | Buddion ar hyd y daith – 2011/12 | Prif fuddiant y prosiect a buddion i’w gwireddu erbyn 2013/14 |
|---|---|---|
| **Teleofal ac offer** | Gwell gwasanaeth gosod offer i ddefnyddwyr yn dilyn integreiddio Gwasanaeth Diogelwch yn y Cartref a gosod Teleofal<br><br>30 o becynnnau teleofal arbenigol wedi eu darparu i ddefnyddwyr bregus iawn<br><br>915 o becynnau telefoal mewn defnydd Cynnydd o 5% | Cynyddu’r dewis o gefnogaeth a llety addas sydd ar gael i bobl hŷn Gwynedd i’w galluogi i fyw’n annibynnol yn y gymuned<br><br>90 o becynnau teleofal arbenigol wedi eu darparu i ddefnyddwyr bregus iawn<br><br>1,010 o becynnau teleofal mewn defnydd – cynnydd o 5% |
| **Galluogi** | Ymestyn y ddarpariaeth Galluogi i ddefnyddwyr Gwasanaeth Anabledd Dysgu<br><br>Ymestyn y ddarpariaeth Galluogi i ddefnyddwyr Gwasanaeth Iechyd Meddwl | 390 o becynnau galluogi dwys yn cael eu darparu yng Ngwynedd – cynnydd o 20% |

| | | |
|---|---|---|
| | 250 o becynnau galuogi dwys yn cael eu darparu yng Ngwynedd<br>Cynnydd o 20%<br><br>9,840 o oriau gofal cartref ar gyfartaledd yn cael eu darparu yng Ngwynedd sef lleihad o 2% | 9,440 o oriau gofal cartref ar gyfartaledd yn cael eu darparu yng Ngwynedd sef lleihad o 2% |
| **Gofal Dydd a chefnogaeth anffurfiol yn y gymuned** | Cytundeb efo Age Concern i ymestyn y gefnogaeth anffurfiol l i bobl hŷn ar draws Gwynedd<br><br>Targed arbedion o £300K wedi eu gwireddu ym maes Gofal Dydd<br><br>Cynnydd 360 yn nifer y bobl hŷn sy’n cael cefnogaeth anffurfiol yn y gymuned | Cynnydd o 1,080 yn nifer y bobl hŷn sy’n cael cefnogaeth anffurfiol yn y gymuned |
| **Gofal Tymor Byr**<br><br>**a. Adfer** | Cytundeb ar y model gofal tymor byr adfer fydd ar gael i gefnogi byw’n annibynnol | 100 o ddefnyddwyr wedi derbyn gofal byr adfer |
| **Gofal Tymor Byr**<br><br>**b. Ysbaid** | Cytundeb ar y model gofal tymor byr ysbaid a fydd ar gael i gefnogi byw’n annibynnol | Cynnydd o 5% yn nifer y nosweithiau ysbaid gaiff eu darparu |
| **Darpariaeth preswyl a nyrsio** | Dim buddion penodol i’w gwireddu yn ystod 2011/12, gwaith paratoadol yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | unig | Lleihad yn y nifer o welyau preswyl i 599<br>Lleihad yn y nifer o welyau nyrsio i 310<br><br>139 uned Tai Gofal Ychwanegol wedi agor yng Ngwynedd |
| **Tai Gofal Ychwanegol** | **Porthmadog a Bangor**<br>Eglurder ar y ffordd ymlaen<br>**Ffestiniog**<br>Dyluniad manwl a chostau targed wedi eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Cynulliad | |
| **Tai Gwarchod** | Dadansoddiad o'r cyfleon sydd ar gael o fewn y ddarpariaeth tai gwarchod i gynnig cefnogaeth addas yn y gymuned a dewis llety i bobl hŷn ac opsiynau gweithredu posib | |
| **Addasiadau** | Dadansoddiad manwl o'r broses ac argymhelion gweithredu i leihau hyd gweithredu addasiadau i ddefnyddwyr | Lleihau hyd gweithredu addasiadau o 400 diwrnod i 320 |

| **Teitl y Prosiect: Gwasanaethau Anabledd Dysgu** | | |
|---|---|---|
| **Profiadau:**<br>Mwy o oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw'n annibynnol yn y gymuned<br>Oedolion bregus yn cael mwy o ddewis o lety addas i'w anghenion<br>Plant, pobl ifanc,oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á'u hanghenion | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| **Llety** | Eglurder i fudd-ddeiliaid ar fwriadau comisiynu y 5 ml nesaf ym maes | Darpariaeth llety a gofal cynaliadwy i ddefnyddwyr gwasanaeth anabledd |

| | | |
|---|---|---|
| | Anableddau Dysgu, fydd yn cyd-fynd â gweledigaeth yr Adran, capasiti cyllidol ac anghenion defnyddwyr<br>Cytundeb ar fodelau llety addas ar gyfer anghenion defnyddwyr gwasanaeth anabledd dysgu Gwynedd yn unol ag argymhellion y cynllun Comisiynu AD<br><br>£300K o arbedion wedi eu hadnabod a'u gwireddu | dysgu |
| **Gofal Dydd** | Cytundeb ar fodelau gofal dydd yn unol ag argymhellion y Cynllun Comisiynu AD<br><br>Rhaglen waith wedi ei chynllunio i ddarparu gofal dydd yn unol ag argymhellion Cynllun Comisiynu AD | |

| **Teitl y Prosiect: : Cefnogi Oedolion Bregus** |
|---|
| **Profiad/au:**<br>Mwy o oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw'n annibynnol yn y gymuned<br>Oedolion bregus yn cael mwy o ddewis o lety addas i'w anghenion<br>Plant, pobl ifanc,oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á'u hanghenion |

| Gweithgareddau'r Prosiect | Buddion ar hyd y daith – 2011/12 | Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14 |
|---|---|---|
| **Cefnogi Oedolion Ifainc Bregus** | Eglurder ar niferoedd ac anghenion oedolion ifanc bregus<br><br>Opsiynau darpariaeth wedi eu cynllunio i ddiwallu'r angen.<br><br>Cytundeb ar y ffordd ymlaen | Darlun eglur o'r ddarpariaeth sydd ei angen i wella'r gefnogaeth i oedolion ifainc bregus Gwynedd a chynllun busnes cadarn |

**Teitl y Prosiect: Trawsnewid Trefniadau Rheoli Busnes**

**Profiad/au:**

Mwy o oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw'n annibynnol yn y gymuned

Oedolion bregus yn cael mwy o ddewis o lety addas i'w anghenion

Plant, pobl ifanc,oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á'u hanghenion

| Gweithgareddau'r Prosiect | Buddion ar hyd y daith – 2011/12 | Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14 |
|---|---|---|
| **Comisiynu** | Eglurder i fudd-ddeiliaid ar fwriadau comisiynu y 5 ml nesaf ym maes Pobl Hŷn ac Anableddau Dysgu, fydd yn cyd-fynd â gweledigaeth yr Adran, capasiti cyllidol ac anghenion defnyddwyr | Trefniadau rheoli busnes ac ymgysylltu cadarn a chost effeithiol sy'n sicrhau bod defnyddwyr Gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau priodol ac amserol |
| **Rheoli Perfformiad** | Swyddogion yr Adran, i lawr i lefel Arweinydd Tim / Uwch Ymarferydd, wedi cymryd rhan lawn mewn hunan arfarniad gan adnabod lle mae angen | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynllunio ar gyfer gwella profiadau a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth<br><br>Ymarfer Canlyniadau'n Cyfrif wedi ei gwblhau ym mhob maes a adnabuwyd yn ystod yr hunan arfarnu fel maes lle roedd angen 'troi'r gornel' o ran perfformiad, er mwyn gwella ansawdd perfformiad | |
| **Ymgysylltu** | Ar gyfer pob cynllun allweddol yn y Rhaglen Wella Gofal, ymarferiad Mapio Budd-ddeiliaid wedi ei gwblhau, a chynllun ymgysylltu eglur yn ei le fydd yn sicrhau bod budd-ddeiliaid yn rhan ganolog o unrhyw ddatblygiad<br><br>Cynhadledd Anableddau Dysgu wedi ei chynnal gyda'r budd o godi ymwybyddiaeth o'r weledigaeth yn y maes hwn a'r bwriadau comisiynu | |
| **Adolygu systemau ariannol** | Adnoddau dynol wedi eu hariannu a'u canfod i fewnosod modiwlau cyllid RAISE fydd, o'i wireddu, yn rhoi'r budd o sicrhau gwell priodoldeb ariannol, cynyddu effeithlonrwydd prosesau a rhoi gwell profiad i ddefnyddwyr gan y bydd gwybodaeth bersonol a | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwybodaeth ariannol yn yr un system | |
| **Datblygu'r Gweithlu** | Uned Datblygu'r Gweithlu ar y cyd rhwng Gwynedd a Mon wedi ei sefydlu gyda chynllun ar gyfer cyflawni yr un lefel / ansawdd gwasanaeth gyda llai o adnoddau neu gyflawni'n uwch gyda'r un adnodd a sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng y ddau gyngor | |
| **Cefnogaeth Systemau TG** | Uned Cefnogi Systemau Gofal ar y cyd rhwng Gwynedd a Mon wedi ei sefydlu gyda chynllun ar gyfer cynnal yr un lefel / ansawdd gwasanaeth am lai o gost, yn dilyn lleihad yn y grant PMDF | |
| **Sicrhau Ansawdd** | Uned Sicrhau Ansawdd ar gyfer Gwynedd wedi ei sefydlu, a rhaglen awdit ar gyfer pob un o 4 Gwasanaeth yr Adran wedi ei llunio fydd yn amlygu lle mae angen ymchwilio i fannau potensial ar gyfer gwella ansawdd a phrofiadau defnyddwyr | |
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | Trefn ffeiilio a storio gwybodaeth adrannol yn weithredol, fydd yn golygu bod staff yn medru gweithio'n fwy effeithiol a bod gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill yn fwy diogel | |

| **Teitl y Prosiect: Cefnogi Teuluoedd – Ymyrraeth Ddwys** | | |
|---|---|---|
| **Profiadau:**<br>Teuluoedd gydag anghenion dwys yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig i'w galluogi i fagu eu plant yn effeithiol<br>Plant, pobl ifanc,oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á'u hanghenion | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Cefnogaeth Integredig i'r Teulu | Bwrdd Gwasanaeth Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd wedi ei sefydlu i arwain ar y broses o sefydlu trefn IFSS yng Ngwynedd<br><br>Eglurder a chytundeb yn ei le rhwng partneriaid ynglŷn â'r model gweithredu mwyaf addas i anghenion Gwynedd newydd ar gyfer IFSS yng Ngwynedd | Y teuluoedd mwyaf bregus yn cael mynediad at y gefnogaeth dddwys iawn |

| **Teitl y Prosiect: Gwasanaethau Yfory** | | |
|---|---|---|
| **Profiadau:**<br>Plant, pobl ifanc,oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á'u hanghenion<br>Teuluoedd gydag anghenion dwys yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig i'w galluogi i fagu eu plant yn effeithiol | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dadansoddiad manwl o'r cynnydd mewn cyfeiriadau a'r cynnydd o 5% yn nifer y plant mewn gofal wedi ei gwblhau<br><br>Opsiynau wedi eu cynllunio i gyfarfod yr angen a chytundeb ar y ffordd ymlaen | Gwasanaeth cynaliadwy ar gael i gefnogi plant, pobl ifanc a theuloedd bregus yng Ngwynedd |

5.3 Gwelir isod restr o'r dangosyddion rhaglenni, sydd yn ceisio mesur cynnydd y rhaglen tuag at wireddu'r Profiadau y maent yn anelu tuag atynt

| **Dangosyddion Rhaglen:** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Cyrhaeddiad 2014** |
| Nifer o becynnau teleofal arbenigol a ddarperir | | 90+<br>Cynnydd o 30 yn flynyddol |
| Nifer o becynnau teleofal sylfaenol a ddarperir | 870 | 1,010<br>Cynnydd o 5% yn flynyddol |
| Nifer o oriau o ofal cartref mewn wythnos (ar gyfartaledd) | 10,040 | 9,440<br>Lleihad o 2% yn flynyddol |
| Nifer sy'n derbyn pecyn o alluogi dwys | 200 | 390<br>Cynnydd o 25% yn flynyddol |

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y nosweithiau ysbaid gaiff eu darparu | | Cynnydd o 5% yn flynyddol |
| Nifer sy'n derbyn cefnogaeth anffurfiol o fewn y gymuned | | 1080 o bobl ychwanegol yn derbyn cefnogaeth anffurfiol |
| Nifer o unedau TGY ar gael yng Ngwynedd | 0 | 139 |
| Nifer y gwelyau preswyl | 689 | 599 |
| Nifer y gwelyau nyrsio | 412 | 310 |
| Hyd gweithredu addasiadau | 400 diwrnod | 320 |
| Nifer y plant mewn gofal | 179 | |

## 6. CYNIGION Y RHAGLEN ADFYWIO A'R ECONOMI AR GYFER 2011-14

### 6.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a'r Profiadau

***Gweledigaeth***
Gweledigaeth y Rhaglen Adfywio a'r Economi yw:

*Bydd Gwynedd y dyfodol yn ffynnu – yn ardal fentrus a byrlymus yn economaidd a chymdeithasol, gyda'r Gymraeg yn ganolog i'w ffyniant, a gyda phobl o bob oed yn medru gafael yn y cyfleon newydd ac yn dewis aros yn yr ardal i fyw a gweithio*

*Wrth wireddu hyn fe fyddwn yn talu sylw penodol i bobl heb waith, i bobl ifanc, i'r ardaloedd llai ffyniannus ac i ddatblygu gweithlu dwyieithog, fel bo pobl Gwynedd yn cael y cyfle gorau i fyw a gweithio yn yr ardal*.



Iwan Trefor Jones
Arweinydd Rhaglen

Dyma'r uchelgais, ac mewn amseroedd economaidd anodd gyda chwtogi ar adnoddau fe fydd cyrraedd yr uchelgais hon yn daith tymor hir i'w chymryd dros nifer o gyfnodau, gan gychwyn yn 2011/14.

***Canlyniadau***
Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniadau yr ydym am weithio tuag atynt:-

**Canlyniad 1 :**
Ffyniant Economaidd – Bydd economi Gwynedd yn ffynnu

**Canlyniad 2 :**
Bydd cyfleon teg i bawb fod yn rhan o'r byd gwaith, gyda phwyslais ar bobl ifanc dan 25 oed a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau

**Canlyniad 3 :**
Bydd Gwynedd yn lle cyffrous i fyw efo cymunedau byrlymus

***Profiadau***

Yn ogystal, rydym wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

***Canlyniad 1***

- Trigolion yn elwa o economi sy'n manteisio fwy ar ei chryfderau (e.e. adnoddau craidd naturiol, amgylchedd, tirlun, iaith, diwylliant, hanes a thalentau lleol) i ddatblygu sectorau gwaith perthnasol a chreu swyddi
- Trigolion yn manteisio ar fwy o sectorau gwerth uchel perthnasol fydd wedi eu datblygu o fewn yr economi ac ar draws y sir
- Trigolion yn manteisio ar fwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir
- Mwy o weithwyr ymhob rhan o'r sir yn derbyn cyflog sy'n nes at gyflog cyfartalog y DG
- Mwy o bobl fusnes y sir yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r sgiliau priodol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg
- Mwy o fusnesau Gwynedd yn ffynnu

***Canlyniad 2***

- Mwy o bobl fusnes y sir yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r sgiliau priodol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg
- Mwy o drigolion ar draws y sir mewn gwaith, yn enwedig pobl ifanc
- Mwy o aelwydydd ar draws y sir yn profi cynnydd yn eu hincwm, efo llai yn y bandiau incwm isaf
- Llai o blant yn byw mewn cartrefi tlawd

***Canlyniad 3***

- Gwynedd yn cael ei chysylltu efo delwedd egnïol, gyffrous a man lle mae pethau yn digwydd
- Pobl ifanc yn gweld byw a gweithio yng Ngwynedd fel y dewis anturus, gyda mwy o bobl ifanc a theuluoedd oed gwaith yn dewis ac yn medru aros yn y sir i fyw a gweithio
- Sawl tref mewn gwahanol rannau o'r sir wedi ail-ganfod eu pwrpas fel prif ganolfannau gwaith a gwasanaethau eu hardaloedd, ac yn fannau bywiog a deniadol i drigolion ac ymwelwyr

6.2 Gwelir isod restr o'r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

Wrth weithredu cynlluniau fe fydd sylw yn cael ei roi i dargedu'n ofodol, ac yn benodol i wyro prif raglenni i Feirionnydd

| | | |
|---|---|---|
| ***Canlyniad 1*** | | |
| **Teitl y Prosiect: Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel** | | |
| **Profiad/au:**<br>Trigolion yn elwa o economi sy'n manteisio fwy ar ei chryfderau (e.e. adnoddau craidd naturiol, amgylchedd, tirlun, iaith, diwylliant, hanes a thalentau lleol) i ddatblygu sectorau gwaith perthnasol a chreu swyddi<br>Trigolion yn manteisio ar fwy o sectorau gwerth uchel perthnasol fydd wedi eu datblygu o fewn yr economi ac ar draws y sir<br>Trigolion yn manteisio ar fwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir<br>Mwy o weithwyr ymhob rhan o'r sir yn derbyn cyflog sy'n nes at gyflog cyfartalog y DG<br>Mwy o bobl fusnes y sir yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r sgiliau priodol<br>Mwy o fusnesau Gwynedd yn ffynnu | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect**<br><br>**Targedu'r Sector Ynni, Amgylchedd a Pheirianneg, gan ganolbwyntio ar** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| ***Ynni Carbon Isel:***<br>Dylanwadu'n strategol ar gyfeiriad a datblygiad cynllluniau Ynys Ynni a Wylfa B | Bydd Gwynedd wedi sicrhau fod y trefniadau mewnol ac allanol priodol mewn lle i alluogi'r sir i ddylanwadu ar gyfeiriad y gwaith ar ddatblygu Wylfa B ar wahanol lefelau cyfrifoldeb | ▪ Sector gwerth uchel wedi ei ddatblygu yn y sir, a'r sail wedi ei gosod ar gyfer cynnyddu'r amrywiaeth o waith a chyfartaledd cyflog<br><br>▪ Busnesau'r sir yn manteisio ar gytundebau newydd gyda budd i'w |
| ***Ynni Carbon Isel:***<br>Cefnogi gweithwyr safle Trawsfynydd a Wylfa i fanteisio ar gyfleon cyflogaeth newydd yn y | Bydd gweithwyr Magnox a'u cytundebwyr ar safle Trawsfynydd yn cael cefnogaeth i'w sgilio ar gyfer | |

| | | |
|---|---|---|
| dyfodol (Rhaglen Siapio'r Dyfodol) | cyfleon gwaith dadgomisiynu Wylfa; gwaith Wylfa B, neu gyfleon eraill | trosiant a'u ffyniant<br>▪ Trefn mewn lle ar gyfer sgilio pobl ifanc yn briodol ar gyfer gofynion busnesau a gwaith yn y sector ynni<br>▪ Gweithlu a darpar-weithlu Gwynedd wedi eu cysylltu efo cyfleon Wylfa B |
| ***Ynni Carbon Isel:***<br>Codi ymwybyddiaeth pobl oed gwaith a busnesau'r sir, ysgolion a'r colegau, ymlaen llaw i'w darparu ar gyfer y cyfleon a'r sgiliau fydd eu hangen, gan roi cymorth i rai efo diddordeb yn y diwydiant | | |
| ***Ynni Carbon Isel:***<br>Adnabod a hyrwyddo cyfleon newydd i fusnesau Gwynedd yn deillio o ddatblygiadau o fewn y sector yn y rhanbarth | | |
| ***Ynni Carbon Isel***<br>Cryfhau cyswllt Wylfa B efo busnesau Gwynedd a hyrwyddo cyfleon tendro | | |
| ***Ynni Carbon Isel***<br>Sicrhau fod cyfleon i leoli cwmniau cyflenwi a pheirianneg y sector mewn lleoliadau ar draws y Gogledd Orllewin | | |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Cefnogi mentrau economaidd cymunedol a gwledig i sefydlu cynlluniau cynyrchu ynni adnewyddol a meicro-gynhyrchu | Bydd y sail ar gyfer datblygu'r sector ynni adnewyddol yng Ngwynedd a'r cyfleon yn glir, o ganlyniad i'r gwaith sgopio cychwynnol | • Sector gwerth uchel wedi ei ddatblygu yn y sir, a'r sail wedi ei gosod ar gyfer cynnyddu'r amrywiaeth o waith a chyfartaledd cyflog<br>• Swyddi newydd wedi eu creu a sgiliau wedi eu datblygu yn y maes ynni adnewyddol |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Adnabod potensial ynni adnewyddol graddfa fwy i economi Gwynedd, gan sgopio a datblygu cyfleon addas | | |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Adnabod a hyrwyddo cyfleon newydd i fusnesau | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwynedd yn deillio o ddatblygiadau o fewn y sector yn y rhanbarth | | • Safle ar gyfer darparu cyrsiau galwedigaethol ynni adnewyddol, peirianneg ac adeiladwaith ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed a'r gweithlu lleol wedi ei sefydlu yn Nolgellau<br><br>• Busnesau a gweithlu presennol Gwynedd wedi eu darparu a'u hail-sgilio ar gyfer datblygiad y sector ynni adnewyddol yn yr ardal, gan dargedu rhan o'r sir sydd wedi ei chydnabod yn economaidd fregus |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Codi ymwybyddiaeth pobl oed gwaith a busnesau'r sir, ysgolion a'r colegau, ymlaen llaw i'w darparu ar gyfer y cyfleon a'r sgiliau fydd eu hangen, gan roi cymorth i rai efo diddordeb yn y diwydiant | | |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Cefnogi sefydlu safle sgilio ynni adnewyddol a pheirianneg yn ne Gwynedd | | |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Cyfrannu at sefydlu'r ddelwedd o'r sir fel 'Gwynedd Werdd' | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Prosiect: Gwynedd Ddigidol** | | |
| **Profiad/au:**<br>Trigolion yn elwa o economi sy'n manteisio fwy ar ei chryfderau i ddatblygu sectorau gwaith perthnasol a chreu swyddi<br>Trigolion yn manteisio ar fwy o sectorau gwerth uchel perthnasol fydd wedi eu datblygu o fewn yr economi ac ar draws y sir<br>Trigolion yn manteisio ar fwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir<br>Mwy o fusnesau Gwynedd yn ffynnu | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect**<br><br>**Sefydlu Gwynedd fel ardal gyfangwbl ddigidol** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Cefnogi LlCC yn rhagweithiol i sgopio anghenion technolegol y sir, mapio'r ddarpariaeth is-adeiledd a sefydlu Gwynedd fel ardal beilot | Byddwn yn gwybod anghenion is-adeiledd y sir, sut i weithredu, a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu | • Gwynedd ar y blaen yn natblygiad y rhwydwaith, a busnesau'r sir mewn sefyllfa i dderbyn mantais |

| | | |
|---|---|---|
| | mewn ymateb iddynt | gystadleuol yn y farchnad |
| Datblygu potensial rhwydwaith a chyfleusterau TGCh y Cyngor er mwyn cryfhau is-adeiledd ar draws y sir, ac i alluogi busnesau a thrigolion i gysylltu efo darparwyr gwasanaeth ac awdurdodau cyhoeddus | | • Pob rhan o'r sir wedi ei chynnwys yn y rhwydwaith a thrigolion yn derbyn gwell mynediad at wasanaethau yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig |
| Cefnogi pobl Gwynedd i gael at y cronfeydd i ddileu'r *Heb-fannau* (*Not-spots)* | Bydd trigolion ar draws y sir yn gwybod fod grantiau LlCC ar gael ar gyfer yr Hebfannau a sut i gael cymorth i fanteisio (100% Cartrefi a 100% Busnesau yn ymwybodol) | • Busnesau ar draws y sir wedi eu paratoi i fanteisio ar gyfleon masnachu newydd, ac i gynyddu eu heffeithlonrwydd |
| Amlygu potensial a hybu defnydd bandeang, a'r genhedlaeth nesaf e.e. ar gyfer gwasanaethau ar lein ac e.fasnachu | Bydd trigolion a busnesau yn dechrau dod yn ymwybodol o'r potensial gyda rhaglen i hyrwyddo defnydd y dechnoleg yn weithredol | |

| | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Prosiect: Datblygiadau'r Sector Feddygol, Gwyddoniaeth ac Uwch Dechnoleg** | | |
| **Profiad/au:**<br>Trigolion yn manteisio ar fwy o sectorau gwerth uchel perthnasol fydd wedi eu datblygu o fewn yr economi ac ar draws y sir<br>Trigolion yn manteisio ar fwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir<br>Mwy o weithwyr ymhob rhan o'r sir yn derbyn cyflog sy'n nes at gyflog cyfartalog y DG | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect**<br><br>**Targedu'r Sector Feddygol** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Cefnogi'r Brifysgol i sefydlu Cyfleuster Ymchwil | | • Datblygiad sector newydd gwerth |

| | | |
|---|---|---|
| Clinigol ym Mangor gan gydweithio i ddatblygu'r budd economaidd ehangach | | uchel Iechyd wedi cychwyn, gyda chlwstwr busnesau lleol yn y sector wedi ei sefydlu<br><br>• Y Cyfleuster Ymchwil Clinigol wedi ei sefydlu ym Mangor fel ffocws i ddatblygiadau pellach yn y sector feddygol a iechyd<br><br>• Sail wedi ei osod ar gyfer y cyfnod dilynol – pryd rhagwelir bydd cyflogwyr newydd wedi sefydlu, a rhagor o swyddi newydd gwerth uchel wedi eu creu, a chynnydd yng nghyflog cyfartalog y sir |
| Arwain ar y cyfleon i fusnesau, gweithlu a darpar weithlu Gwynedd | Bydd y cyfleon i'r sector breifat wedi eu hadnabod, ynghyd â chwmniau posib ar gyfer cydweithio | |
| Bod yn rhagweithiol yn cydweithio efo'r cyrff a sefydliadau perthnasol er mwyn sefydlu'r Ysgol Feddygol ym Mangor a datblygu'r cyfleon i gydleoli gwasanaethau iechyd | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Prosiect: Cadw'r Budd yn Lleol** | | |
| **Profiad/au:**<br>Trigolion yn elwa o o economi sy'n manteisio fwy ar ei chryfderau i ddatblygu sectorau gwaith perthnasol a chreu swyddi<br>Trigolion yn manteisio ar fwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir<br>Mwy o fusnesau Gwynedd yn ffynnu<br>Mwy o bobl fusnes yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r sgiliau priodol | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |

| | | |
|---|---|---|
| **(i) Datblygu sectorau allweddol trwy uchafu budd economaidd cynlluniau cyfalaf mawr:**<br><br>▪ Sector Greadigol – Pontio<br><br>▪ Sector Twristiaeth Treftadaeth ac Awyr Agored - Yr Academi Hwylio, Saflr Treftadaeth y Byd a Rhagoriaeth Eryri<br><br>▪ Sector Adeiladu - Cartrefi Cymunedol, Ysgolion newydd ac ail-ddatblygu safle Atomfa Trawsfynydd | Bydd anghenion busnesau'r sector greadigol, y cyfleon, a'r math o fusnesau all elwa wedi eu hadnabod<br><br>Bydd busnesau'r maes awyr agored yn glir o'r cyfleon yn ôl sectorau penodol ac ardal<br><br>Bydd anghenion sgiliau y sectorau allweddol wedi eu hadnabod<br><br>Bydd busnesau yn y sector adeiladu wedi manteisio ar weithdai a seminarau tendro wedi eu teilwrio i gytundebau unigol | ▪ Sectorau pwysig i economi Gwynedd wedi eu datblygu ymhellach, gyda 350 o fusnesau'r sir wedi eu cefnogi drwy gynyddu eu gallu i gystadlu am gytundebau, neu adnabod marchnadoedd newydd<br><br>▪ Busnesau lleol yn elwa o'r £948.4m gwariant cynlluniau cyfalaf mawr o fewn yr ardal, gan arwain at gynnydd o 5% yn y ganran gwariant cynlluniau cyfalaf mawr yn lleol<br><br>▪ Economi Gwynedd wedi tyfu gyda £5m wedi ei fuddsoddi yn y sir gan y sector breifat, a chynnydd o 100 yn y swyddi ar draws y sir<br><br>▪ Potensial cynlluniau cyfalaf mawr i'r economi leol wedi ei adnabod ar gyfer tynnu'r budd o gynlluniau eraill ddaw yn y dyfodol, ynghyd â sut i adnabod yr anghenion sgilio |
| **(ii) Ymateb i angen sectorau lleol i dderbyn mwy o'r budd o gynlluniau cyfalaf mawr trwy:**<br><br>▪ eu cefnogi i fanteisio ar gyfleon caffael a bod yn fwy cystadleuol;<br>▪ glystyru busnesau a rhoi sylw i gadwyni cyflenwi;<br>▪ rhoi sylw i ddatblygiad y ddarpariaeth sgilio, darparu'r gweithlu a thargedu'r economaidd anweithredol | Byddwn wedi adnabod y potensial llawn o ddefnydd cymalau cymdeithasol o fewn cytundebau | |
| **(iii)Creu'r amodau i annog a hybu tŵf yr economi trwy:**<br>Sefydlu a gweithredu'r Gronfa Fuddsoddi | Bydd y Gronfa ar gyfer benthyciadau wedi ei sefydlu ac ac ar gael i gefnogi busnesau Gwynedd | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cwmniau lleol wedi derbyn benthyciad i fuddsoddi yn eu busnes | |
| | Busnesau a swyddi wedi eu diogelu trwy'r gefnogaeth roddwyd | |

| | | |
|---|---|---|
| ***Canlyniad 2*** | | |
| **Teitl y Prosiect: Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc** | | |
| **Profiad/au:**<br>Mwy o drigolion ar draws y sir mewn gwaith, yn enwedig pobl ifanc<br>Mwy o bobl fusnes y sir yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r sgiliau priodol | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Datblygu a hybu prentisiaethau galwedigaethol ar draws y sir, gan fodelu a gweithredu'r dull gorau o gyflogi prentisiaid ifanc | Bydd y model wedi ei gytuno ar gyfer prentisiaeth pobl ifanc yn y sector ynni | ▪ Trefn i rai 18-24 oed symud i gyflogaeth efo cwmniau a chyflogwyr lleol wedi ei sefydlu<br>▪ 60 o swyddi prentisiaeth wedi eu creu (100 mewn 5 mlynedd) ar gyfer pobl ifanc<br>▪ Mwy o bobl ifanc y sir mewn gwaith<br>▪ Busnesau'r sir yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r |
| Targedu sectorau twf Ynni, yr Economi Werdd, Adeiladu a Gofal | Byddwn wedi sefydlu ein anghenion recriwtio efo Gyrfa Cymru er mwyn cyrraedd at y cyflogwyr cywir | |
| Lleoli prentisiaid efo busnesau lleol, yn ôl arbenigedd | Bydd y 18 prentis cyntaf wedi eu lleoli efo busnesau lleol | |
| Adnabod meysydd a sectorau pellach i'w targedu, gan gynnwys y sector gyhoeddus a'r | | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor fel cyflogwyr | | sgiliau priodol |

| **Teitl y Prosiect: Goresgyn Rhwystrau i Waith** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:**<br>Mwy o drigolion ar draws y sir mewn gwaith, yn enwedig pobl ifanc<br>Mwy o aelwydydd ar draws y sir yn profi cynnydd yn eu hincwm, efo llai yn y bandiau incwm isaf<br>Llai o blant yn byw mewn cartrefi tlawd | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect**<br><br>**Targedu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn y farchnad lafur:** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| **Rhieni Sengl:** trwy weithredu mesurau *Genesis* | Bydd 264 o rieni sy'n economaidd anweithgar a diwaith wedi eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i waith | Bydd pobl leol sydd ddim mewn gwaith, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf, sef 12,150 person wedi cael cynnig cefnogaeth i symud ymlaen i waith neu addysg bellach, gyda 75% o'r rheiny (oddeutu 9,000) yn gwneud hynny |
| | Bydd 85 rhiant yn symud ymlaen i waith a 125 rhiant yn symud ymlaen i addysg bellach | |
| **Rhai mewn peryg o fod yn NEET:** trwy weithredu mesurau *Potensial* | Bydd 150 o bobl ifanc mewn peryg o fod yn NEET wedi eu cefnogi gan weithgareddau'r cynllun | |
| **Rhai efo problemau iechyd meddwl:** trwy weithredu mesurau *Taith i Waith* | Bydd 260 o unigolion â chyflwr iechyd meddwl wedi eu cefnogi e.e. trwy adfocatiaeth, eiriolaeth, cyngor incwm etc i oresgyn rhwystrau i waith | |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd 30 o rai efo problemau iechyd meddwl wed manteisio o hyfforddiant lefel 1 a 2 OCN | |
| | Bydd 5 cyflogwr wedi mabwysiadu ac arwyddo'r Siarter Cyflogwyr | |
| **Pobl ifanc :** trwy weithredu mesurau gwedd newydd *Llwyddo'n Lleol* | Bydd 50 o bobl ifanc 11-19 oed wedi eu cyflwyno i sector twf – ynni | Bydd 4150 o bobl ifanc wedi eu cefnogi trwy weithgareddau rhaglen Llwyddo'n Lleol |
| | Bydd 30 o bobl ifanc 11-19 NEET wedi eu cyflwyno i sector twf – diwydiannau creadigol | |
| | Bydd 10 Llysgennad Ifanc wedi eu penodi | |
| | Bydd pobl ifanc mewn 7 ysgol uwchradd yn manteisio o ddarpariaeth Modiwlau Works Skills | |

| | | |
|---|---|---|
| ***Canlyniad 3*** | | |
| **Teitl y Prosiect: Yma Mae Pethau'n Digwydd** | | |
| **Profiad/au:**<br>Gwynedd yn cael ei chysylltu efo delwedd egnïol, gyffrous a man lle mae pethau yn digwydd<br>Pobl ifanc yn gweld byw a gweithio yng Ngwynedd fel y dewis anturus, gyda mwy o bobl ifanc a theuluoedd oed gwaith yn dewis ac yn medru aros yn y sir i fyw a gweithio | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect**<br><br>**Cefnogi gweithgareddau a digwyddiadau fydd yn creu'r ddelwedd o bethau yn digwydd, ac yn** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |

| | | |
|---|---|---|
| **ennyn perchnogaeth leol:** | | |
| Sicrhau fod digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol wedi eu denu neu sefydlu yng Ngwynedd<br>(9 digwyddiad) | Bydd yr ardal wedi elwa o 3 digwyddiad proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol | ▪ Y ddelwedd wedi ei sefydlu o Wynedd fel ardal fyrlymus a man lle mae pethau'n digwydd, ac fel ardal atyniadol ar gyfer pobl ifanc<br><br>▪ Pobl ifanc a busnesau lleol wedi eu cefnogi a'u sgilio fel trefnwyr, darparwyr a chyflenwyr yn y maes |
| Cefnogi ardaloedd o fewn y sir i ddatblygu digwyddiadau efo'r potensial i gyfrannu at y ddelwedd o fwrlwm<br>(15 digwyddiad) | Bydd 5 digwyddiad strategol gan yr ardaloedd wedi eu cynnal | |
| Datblygu arbenigedd yr ardal ym maes trefnu a chynnal digwyddiadau, yn enwedig ymysg pobl ifanc a mentrau lleol | Busnesau a mentrau Gwynedd yn dechrau mynegi'r farn fod y sir yn fan lle mae pethau'n digwydd | |
| | Pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleon iddyn nhw | |

| | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Prosiect: Bwrsariaeth Swyddi Allweddol** | | |
| **Profiad/au:**<br>Pobl ifanc yn gweld byw a gweithio yng Ngwynedd fel y dewis anturus, a mwy o bobl ifanc a theuluoedd oed gwaith yn dewis ac yn medru aros yn y sir i fyw a gweithio | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect**<br><br>**Gwaith sgopio cychwynnol yn 2011/12, gyda gweithredu wedi hynny yn ddibynol ar y** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |

| canfyddiadau | | |
|---|---|---|
| Targedu myfyrwyr y sir sy'n dilyn cyrsiau mewn meysydd proffesiynol lle bo prinder lleol e.e. Deintyddion neu feysydd proffesiynol eraill lle bo anhawster recriwtio pobl leol i lenwi swyddi gwag | Bydd mathau o swyddi proffesiynol sydd yn anodd eu llenwi, y meysydd proffesiynol a'r angen gofodol wedi eu hadnabod trwy waith yr ymgynghorwyr | ▪ Bydd darlun clir o'r anghenion mewn lle a sut i ymateb iddynt<br><br>▪ Y bylchau o ran penodi i swyddi proffesiynol allweddol wedi eu hadnabod o ran maint, y meysydd proffesiynol a'r patrwm gofodol, ac ymateb wedi ei ddatblygu<br><br>▪ Yn ddibynol ar asesiad 2011/12, bydd lleoliadau a meysydd bwlch penodol wedi eu targedu, a mwy o bobl ifanc cymwysiedig yn dechrau aros yn y sir i fyw a gweithio |
| Llunio opsiynau gweithredu ac amodau derbyn bwrsariaeth (e.e. cyfnod byw a gweithio yn y sir yn dilyn cymhwyso), a chynnal asesiad risg | Bydd cytundeb ar y ffordd ymlaen er cefnogi pobl ifanc a chyflogwyr y sir | |
| Sefydlu trefn gyson i adnabod swyddi proffesiynol gwag o fewn y sir yn y mesysydd wedi eu targedu, ac i'w hamlygu i'r myfyrwyr bwrsariaeth | | |

**Teitl y Prosiect: Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi**

**Profiad/au:**

Sawl tref mewn gwahanol rannau o'r sir wedi ail-ganfod eu pwrpas fel prif ganolfannau gwaith a gwasanaethau eu hardaloedd, ac yn fannau bywiog a deniadol i drigolion ac ymwelwyr

Y Gymraeg wedi ei hybu ar y stryd fawr ac fel iaith cymuned, gwaith ac adloniant

| **Gweithgareddau'r Prosiect**<br><br>**Dod a phobl yn ôl i ganol trefi trwy:** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
|---|---|---|

<table>
<tr><th></th><th></th><th></th></tr>
<tr><td>Rhoi sylw i resymoli’r stryd fawr trwy gynnal astudiaeth capasiti mânwerthu</td><td></td><td rowspan="5">▪ Cyfeiriad strategol mewn lle ar gyfer crynhoi, cryfhau a datblygu ardaloedd masnachol o fewn canol trefi<br><br>▪ Mwy o ganolfannau siopa lleol ardaloedd wedi eu cryfhau, ac yn ddeniadol i siopwyr lleol ac ymwelwyr<br><br>▪ Cynnydd ym modlonrwydd trigolon ardaloedd Gwynedd o ran byw yn y sir<br><br>▪ Bydd 36 o fusnesau canol trefi wedi elwa, a 60 o swyddi wedi eu diogelu<br><br>▪ Bydd y sector breifat wedi buddsoddi mewn gwelliannau, a 24 eiddo canol tref wedi eu gwella (Ardal Môn-Menai)</td></tr>
<tr><td>Rhoi sylw penodol i ddefnydd adeiladau gwag canol trefi<br>(i) Astudiaeth opsiynau, ymchwil marchnad etc<br>(ii) Treialu ac arddangos potensial defnydd siopau gwag</td><td>Bydd y prif Opsiynau ar gyfer defnydd adeiladau gwag canol trefi wedi eu hadnabod, ac adeiladau posib wedi eu hamlygu</td></tr>
<tr><td>Gwella delwedd ac amgylchedd canol trefi ar gyfer siopwyr ac ymwelwyr gan:<br>▪ Roi sylw i rai trefi ym Meirionnydd a Dwyfor (trefi gwahanol i’r rhai sy’n manteisio ar y Cynllun Adfywio Trefol Strategol<br>▪ Weithredu’r Cynllun Grant Gwella Tref (rhai trefi yn ardal Môn-Menai)</td><td>Bydd 1 Canol Tref wedi manteisio o sylw i wedd adeiladau masnachol, is-adeiledd trefol a chynlluniau tirweddu bychain</td></tr>
<tr><td>Datblygu sector fânwerthu canol trefi trwy gyngor arbenigol ac annibynnol i fusnesau unigol</td><td>Bydd 12 o fusnesau canol trefi wedi eu cynorthwyo, a swyddi wedi eu diogelu</td></tr>
<tr><td>Marchnata a hyrwyddo canol trefi fel cyrchfannau siopa eu hardaloedd</td><td>Bydd busnesau canol trefi wedi manteisio o ymgyrch i hyrwyddo siopa’n lleol</td></tr>
</table>

6.3 Gwelir isod restr o’r dangosyddion rhaglenni, sydd yn ceisio mesur cynnydd y rhaglen tuag at wireddu’r Profiadau y maent yn anelu tuag atynt

Mae'r Dangosyddion isod yn rhai ar gyfer adnabod tueddiadau dros gyfnod, a'r newid tymor hir.  Fe fydd cyrhaeddiad 2011-14 yn gorfod cael ei osod yng nghyd-destun y sefyllfa heriol i'r economi, a gallasai ein sefyllfa waethygu cyn gwella.

| **Dangosyddion Rhaglen:** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Cyrhaeddiad 2014**<br>***DS: Mae'r ffigyrau i'w trafod a'u cytuno gan y Bwrdd Rhaglen*** |
| ***Canlyniad 1*** | | |
| Cymhareb nifer swyddi gwag i hawlwyr JSA : Gwynedd/Cymru/DG<br>*(Cynnydd)* | Gwynedd: 0.20:1<br>Cymru: 0.23:1<br>PF: 0.21:1 | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| Cymhareb nifer swyddi gwag i hawlwyr JSA: 3 Ardal Gwynedd<br>*(Cynnydd)* | Arfon: 0.19:1<br>Dwyfor: 0.42:1<br>Meirionnydd: 0.12:1 | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| % swyddi yn ôl diwydiant yng Ngwynedd<br>*(Cynnydd mewn amrywiaeth, gyda sectorau targed yn cynyddu presenoldeb)* | • Amaethyddiaeth a physgota: 0.6%<br>• Adeiladu: 4.5%<br>• Bancio, cyllid, yswiriant ayb. (*cynnwys cyfryngau, gwybodaeth a thelecom*):  8.6%<br>• Egni a dŵr: 1.2%<br>• Dosbarthiad, gwestai a thai bwyta: 31.2%<br>• Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg & iechyd: 37.3%<br>• Cynhyrchu: 7.6%<br>• Trafnidiaeth a chyfathrebu: 3.6%<br>• Gwasanaethau eraill: 5.3% | Nod tymor hir na ellir ei mesur yn y tymor byr |
| Cyflog cymharol Gwynedd (tâl gros wythnosol)<br>*(Cynnydd)* | Gwynedd:<br>89.5% o ffigwr Cymru | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |

| | | |
|---|---|---|
| | 81.4% o ffigwr y DG | |
| Cynnydd mewn goroesiad busnesau - Cymhareb genedigaethau i farwolaethau busnesau: Gwynedd/Cymru/DG | Gwynedd: 1.12<br>Cymru: 1.06<br>DG: 1.23 | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |

| | | |
|---|---|---|
| Cofrestriadau TAW:<br>• Indecs Gwynedd/ Cymru/DG;<br>• Nifer Gwynedd<br>*(Cynnydd)* | Indecs Gwynedd: 115.7<br>Indecs Cymru: 119.8<br>Indecs DG: 124.5<br>Nifer Gwynedd: 6,250 | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| ***Canlyniad 2*** | | |
| Nifer Hawlwyr JSA dan 25 oed<br>*(Lleihad)* | Nifer Gwynedd: 625<br>(*sef 30.5% o'r holl hawlwyr*) | Lleihad (sef gwelliant o'r sefyllfa bresennol) |
| % o'r bobl oed gwaith sydd mewn gwaith<br>*(Cynnydd)* | Pobl mewn gwaith: 67.6% | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| Incwm Canolrifol aelwydydd Gwynedd a'i 3 Ardal – cymhariaeth efo Cymru a'r DG<br>*(Cynnydd)* | Gwynedd: £24,878<br>Cymru: £26,469<br>DG: £29,365<br>Arfon: £25,305<br>Dwyfor: £24,792<br>Meirionnydd: £24,360, | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| Cyfradd plant Gwynedd mewn teuluoedd di-waith<br>*(Lleihad)* | Gwynedd: 188 o bob 1,000 plentyn<br>Cymru: 256 o bob 1,000 plentyn<br>DG: 238 o bob 1,000 plentyn | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| ***Canlyniad 3*** | | |
| Poblogaeth oed gwaith Gwynedd fel % o'r boblogaeth<br>*(Cynnydd)* | Gwynedd: 62.2% | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| % rhai 20-34 oed sy'n allfudo o Wynedd | Gwynedd: 13.5% | Cynnal y sefyllfa mewn |

| | | |
|---|---|---|
| *(Lleihad)* | | cyfnod heriol |
| % Bodlonrwydd trigolion ardaloedd Gwynedd o ran byw yn y sir a’r ddarpariaeth gwasanaethau *(Cynnydd*) | I’w sefydlu | I’w sefydlu |

## 7. CYNIGION Y RHAGLEN PLANT A PHOBL IFANC AR GYFER 2011-14

### 7.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a'r Profiadau



Iwan Trefor Jones
Arweinydd Rhaglen

Gweledigaeth y Rhaglen Plant a Phobl Ifanc yw:

- Bydd Gwynedd yn le sy'n rhoi'r cyfleoedd a phrofiadau gorau mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed.

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniad yr ydym am weithio tuag ato:

- Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd.

Yn ogystal, rydym wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn wynebu llai o anfantais oherwydd tlodi.
- Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.
- Plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.
- Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir.
- Pobl ifanc yn cael mynediad gwell at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro a mwynhau.

7.2 Gwelir isod restr o'r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

<table>
<tr><td colspan="3">Teitl y Prosiect: Prosiect Torri'r Cylch (Cefnogi Teuluoedd)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Profiad/au:<br>Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn wynebu llai o anfantais oherwydd tlodi.<br>Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.</td></tr>
<tr><th>Gweithgareddau'r Prosiect</th><th>Buddion ar hyd y daith – 2011/12</th><th>Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14</th></tr>
<tr><td>Sefydlu modelau newydd ar gyfer cynllunio, comisiynu a darparu cefnogaeth i deuluoedd ar draws y continwwm o angen.</td><td>➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â'r gost i'r sector gyhoeddus o gefnogi teuluoedd bregus.<br>➢ Modelau yn eu lle ar gyfer darparu cefnogaeth integredig i deuluoedd ar draws y continwwm o angen.<br>➢ 30 o deuluoedd sydd mewn perygl o fod yn fregus wedi derbyn cefnogaeth integredig yn unol â'u hanghenion.</td><td rowspan="2">Modelau gweithredu newydd yn eu lle ar draws y continwwm o angen sy'n:<br><br>➢ Rhoi mynediad gwell i deuluoedd at gefnogaeth amserol sydd yn integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.<br>➢ Galluogi asiantaethau cyhoeddus i wneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o'u hadnoddau i gefnogi teuluoedd.<br>➢ Lleihau'r nifer o deuluoedd sy'n datblygu problemau ac anghenion dwys a chymhleth.<br><br>➢ 30 o deuluoedd sydd mewn perygl o fod yn fregus wedi</td></tr>
<tr><td>Cyflwyno model gweithredu newydd ar gyfer y 'Tîm o Amgylch y Plentyn' yng Ngwynedd er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd gydag amryfal anghenion yn unol ag egwyddorion rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf' Llywodraeth Cynulliad Cymru.</td><td>➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â'r model gweithredu newydd ar gyfer y TAP yng Ngwynedd.<br>➢ Gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd a gomisiynir drwy Gronfa Cymorth / Teuluoedd yn Gyntaf wedi eu cysoni â'r model gweithredu newydd ar gyfer y TAP.<br>➢ 36 o deuluoedd wedi derbyn cefnogaeth drwy'r TAP.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | derbyn cefnogaeth integredig yn unol â'u hanghenion.<br>➢ 56 o deuluoedd wedi derbyn cefnogaeth drwy'r TAP. |

**Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Anabl a Gwael**

**Profiad/au:**

Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn wynebu llai o anfantais oherwydd tlodi.

Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.

Plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.

| Gweithgareddau'r Prosiect | Buddion ar hyd y daith – 2011/12 | Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14 |
|---|---|---|
| Trawsnewid y gwasanaethau a phrofiadau a gynigir i blant a phobl ifanc anabl a gwael drwy ddarparu gwasanaethau integredig ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. | ➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau ar y cyd i blant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd.<br>➢ Cytundeb ffurfiol yn ei le rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â'r patrwm newydd o ddarparu gwasanaeth integredig i blant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd. | Trefn newydd o gydweithio yn ei le rhwng y Cyngor ac asiantaethau eraill ar gyfer:<br><br>➢ Rhoi gwell mynediad i blant a phobl ifanc anabl a gwael at ystod o ddarpariaethau sy'n cwrdd â'u hanghenion.<br>➢ Darparu egwyl fer amserol ar gyfer rhieni, teuluoedd a gofalwyr.<br>➢ Galluogi a chefnogi plant a phobl ifanc anabl a gwael i gael mynediad teg at brofiadau a |
| Cynllunio i gynnwys gwasanaethau addysg yn llawn yn y trefniant cydweithio ffurfiol. | ➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnwys gwasanaethau addysg yn llawn yn y trefniant cydweithio ffurfiol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | chyfleoedd o fewn y prif-lif.<br><br>➢ Mwy o blant a phobl ifanc anabl a gwael yn cael mynediad at brofiadau a chyfleoedd o fewn y prif-lif.<br>➢ Gwerth y gwasanaeth wedi ei adnabod yn dilyn ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc anabl a gwael, eu teuluoedd a phartneriaid. |

**Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gyda Phroblemau Ymddygiad**

**Profiad/au:**

Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.

Plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.

Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir.

| Gweithgareddau'r Prosiect | Buddion ar hyd y daith – 2011/12 | Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14 |
|---|---|---|
| Cryfhau'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc bregus a'r rhai gyda phroblemau ymddygiadol o fewn ysgolion prif lif. | ➢ Patrymau newydd o ddarparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc bregus a'r rhai gyda phroblemau ymddygiadol o fewn ysgolion prif lif wedi eu cynllunio. | Trefniadau newydd mewn lle ar gyfer:<br><br>➢ Sicrhau cynhwysiad llawn i bob disgybl yng Ngwynedd.<br>➢ Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau i wella presenoldeb disgyblion a lleihau |
| Sefydlu darpariaeth newydd er mwyn cynnig cefnogaeth a phrofiadau addysgol addas i blant | ➢ Pecyn ariannu ar gyfer sefydlu'r ddarpariaeth newydd wedi ei | |

| | | |
|---|---|---|
| a phobl ifanc gydag anghenion emosiynol a chymdeithasol dwys. | gytuno. | gwaharddiadau o ysgolion prif-lif.<br>➢ Cyd-weithio gyda Chynghorau cyfagos i ddarparu gwasanaeth effeithiol i bobl ifanc gyda phroblemau ymddygiad dwys a heriol iawn.<br><br>➢ Llai o ddisgyblion yn cael eu gwahardd yn barhaol ac am gyfnodau penodol.<br>➢ Cynnydd ym mhresenoldeb disgyblion ar draws y sectorau Cynradd ac Uwchradd.<br>➢ Darpariaeth newydd yn ei le ac yn cynnig cefnogaeth a phrofiadau addysgol addas i blant a phobl ifanc gydag anghenion emosiynol a chymdeithasol dwys. |

**Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Profiad/au:**

Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.

Plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.

Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir.

| Gweithgareddau'r Prosiect | Buddion ar hyd y daith – 2011/12 | Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14 |
|---|---|---|

<table>
<tr>
<td>Trawsnewid y ddarpariaeth a gynigir i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol drwy sefydlu model o ddarparu ar gyfer disgyblion gydag ADY ar sail arfer dda.</td>
<td>➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â chyfeiriad y ddarpariaeth i'r dyfodol yn dilyn cwblhau Adolygiad Strategol o'r maes.</td>
<td rowspan="2">Trefniadau newydd mewn lle ar gyfer:<br><br>➢ Darparu'r math cywir o gefnogaeth a phrofiadau ar yr adegau cywir i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol.<br>➢ Galluogi mwy o blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni eu potensial.<br>➢ Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad addysgol disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol a chyrhaeddiad dysgwyr yn gyffredinol.<br>➢ Sicrhau rheolaeth lawn dros gyllideb anghenion dysgu ychwanegol y Cyngor.<br><br>➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â'r drefn leol o ymateb i'r newid mewn deddfwriaeth AAA.<br>➢ Arbedion effeithlonrwydd wedi eu sicrhau yn sgil trawsnewid y ddarpariaeth a gynigir i blant a phobl ifanc gydag ADY.</td>
</tr>
<tr>
<td>Cynllunio i godi adeilad newydd gyda chyfleusterau modern safonol mewn lleoliad cyfleus yn ardal Meirion / Dwyfor.</td>
<td>➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â'r pecynnau ariannu.<br>➢ Cynlluniau ffisegol a chwricwlaidd mewn lle ar gyfer yr ysgol arfaethedig.</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="3">Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Addysg Gynradd ac Uwchradd</td></tr>
<tr><td colspan="3">Profiad/au:<br>Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o’r math cywir.<br>Pobl ifanc yn cael mynediad gwell at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol sy’n rhoi’r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro a mwynhau.</td></tr>
<tr><th>Gweithgareddau’r Prosiect</th><th>Buddion ar hyd y daith – 2011/12</th><th>Prif fuddiant y prosiect a buddion i’w gwireddu erbyn 2013/14</th></tr>
<tr><td>Sefydlu rhwydwaith o sefydliadau addysgol (cynradd ac uwchradd) o’r math cywir er mwyn cynnig y profiadau dysgu gorau posibl i holl ddysgwyr y Sir.</td><td>➢ Penderfyniad wedi ei wneud gan y Cyngor ynglŷn â dyfodol trefniadaeth ysgolion yn ardal Y Berwyn, Bala.<br>➢ Cytundeb mewn lle ynglŷn ag opsiynau ar gyfer trefniadaeth addysg yn nalgylch Y Gader.</td><td rowspan="3">Trefniadau mewn lle ar gyfer:<br>➢ Cau’r bwlch rhwng cyrhaeddiad addysgol grwpiau penodol o ddysgwyr a gwella sgiliau pobl ifanc.<br>➢ Rhesymoli llefydd gweigion a lleihau’r amrediad o ran maint dosbarthiadau o fewn ysgolion cynradd y Sir.<br>➢ Gwella cyfleusterau ac adnoddau dysgu mewn ardaloedd penodol.<br>➢ Ysgol Ardal newydd wedi ei hagor ym Mro Dysynni ac yn darparu profiadau addysgol i blant yr ardal.<br>➢ Dalgylch Ysgol Penybryn, Tywyn wedi ei hymestyn er mwyn cryfhau a sicrhau parhad addysg wledig yn yr ardal.</td></tr>
<tr><td>Creu amgylchedd dysgu o’r radd flaenaf i blant, pobl ifanc ac athrawon y Sir drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi’u cyflunio i ymateb i’r newid yn arferion prosesau addysgu a dysgu cyfoes.</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Cynllunio i gau’r bwlch rhwng cyrhaeddiad addysgol grwpiau penodol o ddysgwyr a gwella sgiliau pobl ifanc.</td><td>➢ Trefniadau mewn lle ar gyfer rhoi sylw i gau’r bwlch rhwng cyrhaeddiad grwpiau penodol o ddysgwyr a gwella sgiliau pobl ifanc.</td></tr>
</table>

| Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:**<br>Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir.<br>Pobl ifanc yn cael mynediad gwell at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro a mwynhau. | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Trawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 er mwyn rhoi mynediad i bobl ifanc at fwy o gyrsiau academaidd a galwedigaethol a'u paratoi ar gyfer y byd gwaith drwy wneud yn siŵr eu bod yn cael eu harfogi efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol. | ➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol y model sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd. | Trefn newydd yn ei le ar gyfer:<br><br>➢ Comisiynu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc dros 16 oed.<br>➢ Darparu cyrsiau academaidd a galwedigaethol addas i bobl ifanc, gan gynnwys y cyrsiau hynny sydd fwyaf priodol ar gyfer cyfleoedd gwaith ar draws y Sir.<br><br>➢ Pobl Ifanc yn manteisio ar gyrsiau academaidd a galwedigaethol addas sy'n cael eu comisiynu drwy'r drefn newydd. |

| Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Profiadau a Chyfleoedd i Bobl Ifanc |
|---|
| **Profiad/au:**<br>Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir.<br>Pobl ifanc yn cael mynediad gwell at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro a |

mwynhau.

| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
|---|---|---|
| Darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol i bobl ifanc a'r cyfle i ennill achrediadau cydnabyddedig. | ➢ 100 o bobl ifanc wedi ennill Gwobr Dug Caeredin Efydd ac Arian.<br>➢ 20 o bobl ifanc wedi ennill Gwobr Dug Caeredin Aur.<br>➢ 150 o bobl ifanc bregus wedi ennill Cymhwyster Agored Cymru (Sgiliau Bywyd).<br>➢ 150 o bobl ifanc wedi ennill gwobr Cyflawniad Ieuenctid. | Patrwm newydd yn ei le ar gyfer:<br><br>➢ Darparu profiadau a chyfleoedd dysgu anffurfiol integredig i bobl ifanc ar draws y Sir.<br>➢ Cynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n llwyddo i ennill achrediad cydnabyddedig, sy'n gwirfoddoli ac sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ac egniol.<br>➢ Lleihau'r nifer o bobl ifanc nid mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.<br>➢ Rhesymoli clybiau ac eiddo'r gwasanaeth ieuenctid i adlewyrchu anghenion y 5 dalgylch ardal.<br><br>➢ 100 o bobl ifanc wedi ennill Gwobr Dug Caeredin Efydd ac Arian.<br>➢ 20 o bobl ifanc wedi ennill Gwobr Dug Caeredin Aur.<br>➢ 150 o bobl ifanc bregus wedi |
| Cefnogi pobl ifanc i wirfoddoli. | ➢ Pobl ifanc sy'n gwirfoddoli yn manteisio'n llawn ar Gynllun 'Bancio Amser'.<br>➢ 20 o bobl ifanc wedi manteisio o gymryd rhan yn y Cynllun Credyd Gwirfoddoli Hamdden | |
| Sicrhau darpariaeth rhwydwaith o wasanaethau, profiadau a chyfleoedd ieuenctid integredig ar sail 5 dalgylch. | ➢ Adnodd Gweithiwr Ieuenctid ar gael i weithio gydag Ysgolion Uwchradd o fewn y 5 dalgylch. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | ennill Cymhwyster Agored Cymru (Sgiliau Bywyd).<br>➢ 150 o bobl ifanc wedi ennill gwobr Cyflawniad Ieuenctid.<br>➢ 20 o bobl ifanc wedi manteisio o gymryd rhan yn y Cynllun Credyd Gwirfoddoli Hamdden.<br>➢ Arbedion effeithlonrwydd wedi eu sicrhau yn dilyn rhesymoli clybiau ac eiddo'r Gwasanaeth Ieuenctid. |

7.3 Gwelir isod restr o'r dangosyddion rhaglenni, sydd yn ceisio mesur cynnydd y rhaglen tuag at wireddu'r Profiadau y maent yn anelu tuag atynt

| **Dangosyddion Rhaglen:** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Cyrhaeddiad 2014** |
| Canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sy'n llwyddo i ennill y Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 | CA2 – 72.8%<br>CA3 – 42.4% | Cynyddu |
| Canran y plant 3 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd wedi gwneud cynnydd datblygiadol ers eu hasesiad SOGS (Atodlen o Sgiliau Tyfu) yn 2 oed | Angen Sefydlu'r Waelodlin | I'w Bennu |
| Canran y cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 49.13% | Lleihau |

| | | |
|---|---|---|
| Canran y disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sy’n llwyddo i ennill y Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 | CA2 – 42.1%<br>CA3 – 23.1% | Cynyddu |
| Nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd o’r ysgol gan bob gwaharddiad cyfnod penodol fesul 1,000 o ddisgyblion | 3.3 | Lleihau |
| Amrediad maint dosbarthiadau mewn Ysgolion Cynradd | 5 i 33 | 12 - 30 |
| % y bobl ifanc 16 - 18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant | 3.6% | Lleihau |

## 8. CYNIGION Y RHAGLEN AMGYLCHEDD AC IS-ADEILEDD AR GYFER 2011-14

### 8.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a’r Profiadau



Dafydd P Lewis
Arweinydd Rhaglen

Gweledigaeth y Rhaglen Amgylchedd ac Is-adeiledd yw hybu amgylchedd sy’n ddiogel, gyda thai addas a chysylltiadau hwyslus a defnyddiol i Wynedd a’i thrigolion yng ngwyneb newidiadau yn lleol ac yn y byd o’n cwmpas.

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniadau yr ydym am weithio tuag atynt:-

- Amgylchedd sy’n ddiogel a chynaliadwy
- Cyflenwad o dai addas yn y Sir
- Cysylltiadau hwylus a defnyddiol

Yn ogystal, rydym wedi nodi’r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio’r prif elfennau o’r canlyniadau mewn mwy o fanylder

- Mwy o wastraff yn cael ei ailgylchu
- Llai o ddibyniaeth  ar danwydd ffosil o fewn y sir
- Pobl o dan fygythiad o lifogydd yn ymwybodol o’r risg
- Gwell mynediad i dai fforddiadwy, i’w berchen a’i rentu
- Mwy o gyflenwad tai addas ar gael yn y Sir
- Darpariaeth cludiant yn cwrdd yn well ag anghenion defnyddwyr

8.2 Gwelir isod restr o’r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o’r hyn y maent am eu gwireddu

<table>
<tr><td colspan="3">Teitl y Prosiect: Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd</td></tr>
<tr><td colspan="3">Profiad/au: Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil o fewn y sir</td></tr>
<tr><th>Gweithgareddau’r Prosiect</th><th>Buddion ar hyd y daith – 2011/12</th><th>Prif fuddiant y prosiect a buddion i’w gwireddu erbyn 2013/14</th></tr>
<tr><td>Ynni mewn adeiladau annomestig</td><td>▪ Targed o leihad o 12% mewn allyriadau $CO_2$ sy’n deillio o ddefnydd ynni yn adeiladau annomestig sefydliadau’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi ei gyrraedd.</td><td rowspan="3">Bydd Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd wedi sicrhau lleihad sylweddol mesuradwy mewn allyriadau carbon cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd.<br><br>Bydd y buddiannau canlynol yn deillio o’r prosiect:<br>▪ Sicrhau gostyngiad o rhwng 20 a 25% mewn allyriadau carbon sy’n deillio o’r defnydd o ynni mewn adeiladau annomestig cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.<br>▪ Sicrhau gostyngiad o 20% mewn allyriadau carbon sy’n deillio o deithiau ar fusnes cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd erbyn 2012/13 a datblygu cynllun a mabwysiadu targed er mwyn sicrhau gostyngiad pellach.</td></tr>
<tr><td>Teithiau Busnes</td><td>▪ Dim buddiant wedi ei adnabod ar gyfer 2011/12.</td></tr>
<tr><td>Gwastraff</td><td>▪ Dim buddiant wedi ei adnabod ar gyfer 2011/12.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| Sector Gymunedol/Busnes | ▪ Bydd cynllun gweithredu lleihau ôl troed carbon y sector gymunedol a busnes wedi ei ddatblygu ac wedi ei fabwysiadu. | ▪ Sicrhau gostyngiad o 603tCO2 sy'n deillio o reolaeth gwastraff cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol erbyn 2012/13 a datblygu cynllun a mabwysiadu targed er mwyn sicrhau gostyngiad pellach.<br>▪ Gweithredu cynlluniau o fewn y sector gymunedol a'r sector fusnes er mwyn sicrhau gostyngiad mesuradwy mewn allyriadau carbon. |

| **Teitl y Prosiect: Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor**[1] | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil yn y Sir | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Lleihau allyriadau carbon | – Sicrhau lleihad o 14% yn allyriadau carbon y Cyngor. | Cynnydd sylweddol wedi ei wneud o safbwynt cyrraedd y targed o leihad o 30% (erbyn diwedd Mawrth 2015) yn allyriadau carbon y Cyngor.<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 2014 bydd y buddiannau canlynol wedi eu gwireddu:<br>- Byddwn wedi sicrhau lleihad o 20% |

[1] Dylid nodi mai'r Cynllun hwn fydd yn gyfrifol am wireddu mwyafrif ymrwymiadau y Cyngor o fewn Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd.

| | | |
|---|---|---|
| | | yn allyriadau carbon y Cyngor.<br>- Byddwn wedi sicrhau arbedion refeniw cronnus o £924,214 er 2010/11. |

| **Teitl y Prosiect: Strategaeth Wastraff** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Mwy o wastraff yn cael ei ailgylchu | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Lleihau gwastraff a chynyddu lefelau ailgylchu/compostio | ▪ Bydd canran y gwastraff trefol a gesglir:<br>i. sydd wedi ei ailgylchu – 23<br>ii. sydd wedi ei gompostio – 25<br>▪ Bydd cynnydd mewn lefelau ailgylchu/compostio masnachol o waelodlin o 11.5% (amcangyfrif 10/11) i 30%.<br>▪ Bydd targedau wedi eu sefydlu ar gyfer 2012/13 a 2013/14 yn seiliedig ar brofiadau trawsnewid y ddarpariaeth ailgylchu/compostio masnachol.<br>▪ Bydd ymgyrchoedd wedi eu cynnal mewn ardaloedd penodol lle mae ffigyrau ailgylchu a chompostio yn isel. | Bydd y prosiect wedi lleihau faint o wastraff bwrdeistrefol a gynhyrchir a chynyddu lefelau ailgylchu a chompostio a chanolbwyntio ar newid ymddygiad trigolion y Sir.<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 2014 bydd y buddiannau canlynol wedi eu gwireddu:<br>▪ Targedau o safbwynt canran y gwastraff bwrdeistrefol a gesglir wedi eu cyrraedd.<br>▪ Trefniadau ar gyfer casglu gwastraff bwyd yn wythnosol wedi eu sefydlu drwy'r Sir a Phrosiect GwyriAD yn ei le er mwyn ymdrin â'r gwastraff bwyd.<br>▪ Cynnydd mewn lefelau |
| Trefniadau casglu bwyd yn wythnosol a'i drin | ▪ Bydd trefniadau casglu gwastraff | |

| | | |
|---|---|---|
| | bwyd wythnosol wedi eu cyflwyno ar draws y Sir.<br>▪ Bydd ymgyrch codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo defnydd o'r casgliadau bwyd wythnosol (sydd i gyd-fynd hefo cyflwyno'r trefniadau) wedi ei gwblhau | ailgylchu/compostio masnachol.<br>▪ Newid ymddygiad ymysg trigolion o ganlyniad i raglen ymgyrchoedd. |
| Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | ▪ Dim buddiant wedi ei adnabod ar gyfer 2011/12. | |

| **Teitl y Prosiect: Rheoli Risg Llifogydd** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Pobl o dan fygythiad o lifogydd yn ymwybodol o'r risg | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Adnabod y risgiau, codi ymwybyddiaeth a llunio cynlluniau i ymateb i lifogydd mewn cymunedau. | • Bydd cyfeiriad ar gyfer y dyfodol wedi ei adnabod yn dilyn asesiad o lwyddiant Cynllun Peilot Pwllheli.<br>• Bydd 8 cymuned (sydd eisoes wedi eu hadnabod fel cymunedau o risg uchel o lifogydd) wedi elwa o waith i adnabod y risgiau o lifogydd sy'n bodoli a'r hyn y gellir ei wneud o ran ymateb i'r risgiau.<br>• Bydd cyfrifoldebau am weithredu gofynion ac arwain ar y Ddeddf Llifogydd a Dŵr 2010 o fewn y Cyngor yn glir | Cynnydd mewn lefelau ymwybyddiaeth ymysg trigolion yr 8 gymuned a adnabuwyd. (Ffigwr i'w benderfynu yn dilyn asesiad o lwyddiant Peilot Pwllheli)Bydd y prosiect hefyd wedi datblygu agwedd newydd tuag at reoli risg arfordirol a llifogydd, gan roi sylw i godi ymwybyddiaeth, cefnogaeth mewn argyfwng a gwytnwch isadeiledd ardaloedd penodol.<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 2014 bydd y buddiannau canlynol wedi eu |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwireddu:<br>• Astudiaethau dealltwriaeth wedi eu cwblhau mewn 8 cymuned.<br>• Gwaith wedi ei wneud i amlygu'r risg o lifogydd o fewn y 8 cymuned a gwaith wedi ei wneud i gynyddu dealltwriaeth.<br>• Darlun cliriach wedi ei sefydlu o fewn y cymunedau o ble mae angen blaenoriaethu buddsoddiad a'r mathau o ymyraethau y bydd eu hangen er mwyn delio gyda risg llifogydd.<br>• Ymateb rhagweithiol anorfod wedi ei dargedu.<br>• Byddwn wedi cydymffurfio â holl ofynion y Ddeddf Llifogydd a Dŵr 2010. |

| **Teitl y Prosiect: Tai Fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Gwell mynediad i dai fforddiadwy, i'w berchen a'i rentu | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| • Cydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig i ddarparu unedau fforddiadwy anghenion cyffredinol<br>• Darparu mentrau i hwyluso mynediad i | • Bydd cytundeb ar flaenoriaethau dyraniad Grant Tai Cymdeithasol i Wynedd<br>• Bydd 58 o unedau tai fforddiadwy | Bydd y prosiect wedi datblygu opsiynau i gynyddu cyfleoedd i brynwyr a rhai sydd yn dymuno rhentu eu cartref cyntaf, megis blaendaliadau morgais, cynllun |

| | | |
|---|---|---|
| brynwyr tro cyntaf i'r farchnad dai (yn cynnwys cynllun blaendaliadau morgais a Chymorth Prynu) neu gadw perchnogion yn eu cartrefi (achub morgais)<br>• Gweithio gyda pherchnogion tai gwag i'w dychwelyd i ddefnydd fforddiadwy<br>• Cydweithio gyda datblygwyr/tirfeddianwyr preifat er darparu unedau fforddiadwy preifat (heb sybisidi cyhoeddus)<br>• Cydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig i ddarparu unedau fforddiadwy arbenigol yn y maes Tai Gofal Ychwanegol<br>• Sicrhau cydweithio agos rhwng landlordiaid preifat a Swyddogion Cynllun Lesu Sector Breifat Cyngor Gwynedd<br>• Rheolaeth ar dai haf | wedi eu darparu o ganlyniad i:<br>• gydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig (anghenion cyffredinol)<br>• mentrau i hwyluso mynediad i brynwyr tro cyntaf i'r farchnad dai neu gadw perchnogion yn eu cartrefi<br>• gweithio gyda pherchnogion tai gwag<br>• gydweithio gyda datblygwyr/tirfeddianwyr<br>• gydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig (Tai Gofal Ychwanegol).<br>• gydweithio rhwng landlordiaid preifat a Swyddogion Lesu Sector Breifat.<br>• Bydd cynllun gwaith wedi ei sefydlu ar gyfer arwain ar ymgyrch lobïo genedlaethol i gael gwell rheolaeth ar y nifer o dai haf yn y Sir<br>• Bydd adolygiad wedi ei gynnal o Ddatganiad Cyflenwi Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd 2007-11 | Cymorth Prynu, a chael gwell rheolaeth ar nifer tai haf yn y sir trwy arwain ar ymgyrch cenedlaethol. Bydd hefyd wedi adnabod ffyrdd i gryfhau cydweithio gyda landlordiaid sector breifat a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn osgoi digartrefedd. Hyn i gynnwys parhad a chryfhau'r cynllun Lesu Sector Breifat (landlordiaid sector breifat), a pharhad o'r ddarpariaeth cynllun achub morgais (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig).<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 2014 bydd y buddiannau canlynol wedi eu gwireddu:<br>• 57 uned wedi eu darparu o ganlyniad i gydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig i ddarparu unedau fforddiadwy anghenion cyffredinol<br>• 62 uned wedi eu darparu o ganlyniad i gydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig i ddarparu unedau fforddiadwy arbenigol yn y maes Tai Gofal Ychwanegol<br>• 25 uned wedi eu darparu o |

| | | |
|---|---|---|
| | | ganlyniad i ddarparu mentrau i hwyluso mynediad i brynwyr tro cyntaf i'r farchnad dai<br>• 15 uned wedi eu darparu o ganlyniad i weithio gyda pherchnogion tai gwag i'w dychwelyd i ddefnydd fforddiadwy<br>• 16 uned wedi eu darparu o ganlyniad i gydweithio gyda datblygwyr/tirfeddianwyr preifat er darparu unedau fforddiadwy preifat (heb sybisidi cyhoeddus)<br>• 15 uned tai sector breifat yn dod i ddefnydd tai fforddiadwy drwy gyfrwng cydweithio rhwng Swyddogion Lesu Sector Breifat Cyngor Gwynedd a landlordiaid preifat. |

| **Teitl y Prosiect: Tai Gwag nôl i ddefnydd** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Mwy o gyflenwad tai addas ar gael yn y Sir | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| • Cynlluniau benthyciadau<br>• Mesurau gorfodaeth<br>• Cynlluniau grantiau<br>• Mesurau anogaeth | • Bydd Cynllun Benthyciadau yn ei le<br>• Bydd 40 o eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o ganlyniad i:<br>  • Gynlluniau benthyciadau | Bydd y prosiect wedi dod ag eiddo gwag nôl i ddefnydd trwy gyfuniad o grantiau, benthyciadau rhyddhau ecwiti, dulliau gorfodaeth caletach ac anogaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mesurau gorfodaeth<br>• Cynlluniau grantiau<br>• Mesurau anogaeth<br>• Bydd opsiynau eraill ar gyfer dod a thai gwag hir dymor yn ôl i ddefnydd wedi eu hadnabod yn dilyn cwblhau gwaith ymchwil. | Erbyn diwedd Mawrth 2014 bydd y buddiannau canlynol wedi eu gwireddu:<br>• 20 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o ganlyniad i gynllun benthyciadau;<br>• 30 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o ganlyniad i fesurau gorfodaeth;<br>• 45 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o ganlyniad i gynlluniau grantiau;<br>• 35 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o ganlyniad i fesurau Anogaeth |

| **Teitl y Prosiect: Cynllun ôl-troed carbon tai** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil yn y Sir | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Cynllun Yma i Helpu | ▪ Bydd 64 allan o'r 71 ward yng Ngwynedd wedi eu targedu gan y Cynllun Yma i Helpu | Byddwn wedi datblygu prosiectau effeithiol fydd, nid yn unig yn lleihau allyriadau carbon o'r sector dai domestig, ond hefyd yn taclo tlodi tanwydd a chreu cyfleoedd adfywio.<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 2014 bydd y |
| Mapio gweithgaredd effeithlonrwydd ynni | ▪ Bydd system mapio GIS wedi ei chreu ar gyfer adnabod pa ardaloedd sydd wedi elwa o waith arbed ynni/carbon yn y gorffennol yn ogystal â'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | ardaloedd sydd gyda'r angen mwyaf ar gyfer y dyfodol . | buddiannau canlynol wedi eu gwireddu: |
| Manteisio ar gyfleoedd amrywiol | ▪ Bydd trigolion Gwynedd yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael gyda'r "Feed In Tariff (FIT)"<br>▪ Bydd landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol yn ymwybodol o'r cyfleoedd ar gyfer arbed ynni/carbon ac yn manteisio arnynt<br>▪ Bydd 75 o osodiadau ynni adnewyddol wedi eu gwneud o ganlyniad i daliadau 'FIT' a 'RHI'<br>▪ Bydd targed wedi ei sefydlu ar gyfer y nifer o osodiadau ynni adnewyddol sydd wedi eu gwneud o ganlyniad i daliadau 'FIT' a 'RHI' ar gyfer y cyfnod 2012-14. | ▪ Cynllun Ynysu Yma i Helpu wedi ei gynnig ym mhob un o wardiau Gwynedd.<br>▪ Gwaith wedi ei gwblhau er mwyn mapio'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud yng Ngwynedd er mwyn lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon. Bydd y gwaith hwn yn ogystal â'r Arolwg Cyflwr Stoc Tai yn darparu'r sail dystiolaeth angenrheidiol er mwyn dangos yr angen a thargedu adnoddau yn fwy effeithiol.<br>▪ Bydd yr Is Grŵp wedi sicrhau fod y sector dai yn y Sir wedi manteisio ar gyfleoedd i fanteisio o gynlluniau megis CERT (Carbon Emissions Reduction target), FIT (Feed In Tariff) a RHI (Renewable Heat Incentive)<br>▪ Bydd y Sir wedi manteisio o brosiectau sydd wedi deillio o Gynllun ARBED 2. |
| ARBED 2 | ▪ Bydd penderfyniad wedi ei wneud o safbwynt pa brosiectau ddylai fod yn rhan o gynnig/gynigion Gwynedd ar gyfer ARBED 2<br>▪ Bydd Rhaglen Waith ar gyfer yr Is Grŵp Monitro Ôl Troed Carbon Tai wedi ei datblygu a'i mabwysiadu<br>▪ Byddwn wedi cwblhau prosiectau ARBED 2 ar gyfer 2011/12 (hyn yn ddibynnol ar lwyddiant y cynnig/cynigion) | |

| **Teitl y Prosiect: Cludiant Cymunedol** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Darpariaeth cludiant yn cwrdd yn well ag anghenion defnyddwyr | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Cludiant Cymunedol dibynadwy a hygyrch | ▪ Bydd trefn fonitro leol wedi ei sefydlu ar gyfer mesur bodlonrwydd gyda darpariaeth cludiant yn y Sir<br>▪ Bydd contractau cludiant cymunedol gydag amodau o safbwynt mynediad i'r anabl a chynnal a chadw'r cerbydau.<br>▪ Bydd ceisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu mewn 88% o achosion.<br>▪ Byddwn yn deall bodlonrwydd defnyddwyr o safbwynt darpariaeth cludiant lleol ar gyfer y flwyddyn<br>▪ Bydd 2 gytundeb cludiant cymunedol newydd wedi eu dynodi<br>▪ Bydd niferoedd o deithiau a wneir gan bobl yn defnyddio darpariaeth cludiant cymunedol wedi cynyddu i 10,500<br>▪ Byddwn wedi sefydlu gwaelodlin a dangosyddion allweddol o safbwynt trafnidiaeth integredig. | Bydd y prosiect wedi ailfodelu darpariaeth cludiant i deithwyr er gwella mynediad i wasanaethau, gan gynnwys paratoi i integreiddio cludiant cymunedol i ddarpariaeth cludiant ehangach.<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 2014 bydd y buddiannau canlynol wedi eu gwireddu:<br>• Bydd darpariaeth cludiant cymunedol yn ddibynadwy ac yn hygyrch ar draws y Sir.<br>• Cynnydd yn y ddarpariaeth cludiant cymunedol a'r niferoedd o deithwyr sy'n ei ddefnyddio.<br>• Bydd darpariaeth cludiant cymunedol yn y Sir yn addas ar gyfer ei ddefnyddio i bobl gydag anableddau. |

8.3 Gwelir isod restr o'r dangosyddion rhaglenni, sydd yn ceisio mesur cynnydd y rhaglen tuag at wireddu'r Profiadau y maent yn anelu tuag atynt

| **Dangosyddion Rhaglen:** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Cyrhaeddiad 2014** |
| Canran y gwastraff bwrdeistrefol a gesglir:<br>▪ ac a ailgylchir<br>▪ a gompostir neu ei drin yn fiolegol | <br>22% [31/03/2011]<br>22% | <br>26%<br>28% |
| Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 11.5% (amcangyfrif 10/11) | 30% (11/12)(Targedau pellach i'w sefydlu yn seiliedig ar brofiadau trawsnewid y ddarpariaeth) |
| Lleihad ôl-troed carbon y gymuned yng Ngwynedd<br>1. anheddau<br>2. adeiladau di-annedd<br>3. busnes<br>4. teithiau busnes<br>5. gwastraff | 1. [2]Ôl Troed Carbon y sector domestig yng Ngwynedd - 355kT $CO_2$ [data 2008]<br>2. [3]Ôl Troed Carbon adeiladau annomestig cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd - 47.44kT $CO_2$ [data 2005/06] (er gwybodaeth yn 2009/10 roedd y | 1. Gostyngiad o 3% yn ôl troed carbon y sector ddomestig yng Ngwynedd yn flynyddol.<br>2. Gostyngiad o rhwng 20 - 25% yn yr allyriadau carbon sy'n deillio o adeiladau annomestig cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd yn erbyn gwaelodlin |

[2] Local and Regional CO2 Emissions Estimates for 2005-2008 (produced by AEA for DECC)
[3] Adroddiad Rheolaeth Carbon mewn Adeiladau Annomestig Cyrff Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd (Entec a'r Ymddiriedolaeth Garbon, Medi 2008)

| | | |
|---|---|---|
| | ffigwr hwn yn 45.43kT CO2)<br>3. [4]Ôl Troed Carbon y sector fusnes yng Ngwynedd - 282kT CO2 [data 2008]<br>4. Ôl Troed Carbon teithiau busnes cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd - 9.65kT CO2 [data 2007/08]<br>5. Ôl Troed Carbon gwastraff sy'n deillio o weithgareddau cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd – 506.6t CO2 [data 2007/08] | 2005/06<br>3. Gostyngiad o 3% yn ôl troed carbon y sector fusnes yng Ngwynedd yn flynyddol.<br>4. Gostyngiad o 20% (erbyn 2012/13) yn ôl troed carbon teithiau busnes cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd yn erbyn gwaelodlin 2007/08 .<br>5. Gostyngiad o 603 tunnell o CO2 (erbyn 2012/13) yn ôl troed carbon gwastraff sy'n deillio o weithgareddau cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd yn erbyn gwaelodlin 2007/08 . |
| Arbedion refeniw blynyddol yn sgil lleihau ôl-troed carbon[5] | £238,631 (Arbediad 2010/11) | £924,214 (Arbedion cronnus er 2010/11) |
| Lleihad yn allyriadau carbon y Cyngor | 30.75kT CO2[data 2005/06] | Gostyngiad o 20% yn allyriadau carbon y Cyngor yn erbyn gwaelodlin 2005/06. |
| Dealltwriaeth y gymuned o'r risg llifogydd | Astudiaeth dealltwriaeth y gymuned o risg llifogydd wedi ei gynnal fel rhan o Gynllun Peilot Pwllheli a gwaith wedi ei wneud i gynyddu dealltwriaeth. | Astudiaethau dealltwriaeth wedi eu cwblhau mewn 8 cymuned a gwaith wedi ei wneud i gynyddu dealltwriaeth (Caernarfon, Bangor, |

[4] Local and Regional CO2 Emissions Estimates for 2005-2008 (produced by AEA for DECC)
[5] Y Bwrdd Rhaglen Arbedion fydd yn gyfrifol am wireddu'r arbediad.

| | | |
|---|---|---|
| | | Porthmadog, Dolgellau, Fairbourne, Blaenau Ffestiniog, Nefyn, Dyffryn Ardudwy) |
| Nifer tai gwag hirdymor yn y sir [6 mis a drosodd] wedi dod nôl i ddefnydd | Tua 8.6% yn dai gwag [Ionawr 2011] wedi cadarnhau 1,155 eiddo gwag hir dymor yng Ngwynedd. Mae 110 wedi dod nôl i ddefnydd ers Ebrill 2008. | 130 |
| Nifer o unedau fforddiadwy ychwanegol a sicrhawyd i Wynedd (boed yn dai o'r newydd neu ddefnydd o eiddo presennol) | 220 uned hyd at 31-1-2011 yn ogystal â 44 uned yn ychwanegol i'w darparu cyn diwedd 31 Mawrth 2011<br><br>Cyfanswm – 264 dros gyfnod o 3 blynedd. | 190 o unedau fforddiadwy ychwanegol. |
| Gosodiadau ynni adnewyddol domestig sydd wedi derbyn "Feed in Tariff (FIT)/ 'Renewable Heat Incentive (RHI)' | 75 (hyd at 1/3/2010)[6] | 75 (31/03/12)<br>Bydd cyrhaeddiad ar gyfer 2014 yn cael ei benderfynu ar ddiwedd 2011/12 yn seiliedig ar brofiad 2 flynedd gyntaf y taliadau FIT a chyhoeddi manylion y RHI. |
| Trafnidiaeth gymunedol ddibynadwy sy'n hygyrch ar draws y Sir. | **Darpariaeth y Groes Goch[7]**<br>90% o geisiadau am gludiant cymunedol yn ardal Arfon yn cael eu gwireddu. | 96% o geisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu ar draws y Sir. |

[6] https://www.renewablesandchp.ofgem.gov.uk/

[7] Ar gyfartaledd, pobl dros 50 oed sydd yn defnyddio'r gwasanaeth ond mae'r oedran i weld yn gostwng. Eu cleientiaid yw pobl gydag anabledd sy'n methu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

[8] Mae'r gwasanaeth yn agored i bawb dros 18 oed sydd yn faethiedig, anabl neu ddim yn gallu defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae darpariaeth o gludiant yn Nwyfor sy'n ffinio rhwng Pontllyfni, Prenteg a Porthmadog ond maen't yn fodlon trafeilio cyn belled a Thywyn.

| | | |
|---|---|---|
| | 80% o geisiadau am gludiant cymunedol yn ardal Canolbarth a Gogledd Meirionnydd a Dwyrain Dwyfor yn cael u gwireddu.<br>50% o geisiadau am gludiant cymunedol yn ardal De Meirionnydd yn cael eu gwireddu<br><br>**Darpariaeth C.Y.M.R.O.D.**[8]<br>90% o geisiadau am gludiant cymunedol yn ardal Dwyfor yn cael eu gwireddu.<br><br>**Darpariaeth O Ddrws i Ddrws**[9]<br>90% o geisiadau am gludiant cymunedol yn ardal Dwyfor yn cael eu gwireddu.<br><br>[10]Dibynadwyedd cludiant cymunedol 58.96%, ranc 35 allan o 95 | Cynnydd o 10% mewn dibynadwyedd cludiant cymunedol |
| Niferoedd o deithiau a wneir gan ddefnyddio cludiant cymunedol. | Oddeutu 9,000 (seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan CYMROD, Drws i Ddrws a Croes Goch). | Cynnydd yn y nifer o deithiau i 14,000. |
| Addasrwydd trafnidiaeth gymunedol i bobl gydag anableddau | [11]Addasrwydd cludiant cymunedol ar gyfer pobl ag anabledd 58.19%, ranc 38 allan o 95 | Cynnydd o 10% o safbwynt addasrwydd cludiant cymunedol i bobl gydag anableddau |

[9] Maen't yn cynnig gwasanaeth ar gyfer pobl dros 60 oed, pobl gydag anableddau (unrhyw oedran), ac i bobl sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf (pobl ddifreintiedig). Darpariaeth yn ehangu o Ben Llyn i'r Gorllewin, ffinio rhwng Trefor ac Abererch.
[10] National Highways and Transport Public Satisfaction Survey 2010
[11] National Highways and Transport Public Satisfaction Survey 2010

## 9. CYNIGION Y RHAGLEN TRAWSFFURFIO AR GYFER 2011-14

### 9.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a'r Profiadau

Gweledigaeth y Rhaglen Trawsffurfio yw: Cyngor fydd wedi adeiladu ar ei gryfderau gan greu amgylchedd sydd yn caniatáu pobl i fod:

- Flaengar a Mentrus,
- Effeithiol ac Effeithlon,
- Agored a Gofalgar,
- Cadarn ond Ystwyth.

Er mwyn cyflawni'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory.



Harry Thomas
Arweinydd y Rhaglen

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniad yr ydym am weithio tuag ato:-

- Cyngor ar ei orau sydd yn cyflawni i bobl Gwynedd heddiw ac yfory

Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- Mwy o drigolion a chymunedau Gwynedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud ei orau drostynt
- Mwy o bobl a chymunedau hyderus efo'r gallu i ddatblygu eu hatebion eu hunain a bod yn fwy hunangynhaliol
- Mwy o gwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd.
- Mwy o staff yn teimlo eu bod yn rhan o'r Cyngor ac yn cael eu gwerthfawrogi
- Bod y Cyngor yn cyflawni fwy o'r canlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth
- Gwell gwasanaethau drwy gyfres o newidiadau arloesol

9.2 Gwelir isod restr o'r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

| **Teitl y Prosiect: Ymgysylltu** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Mwy o drigolion a chymunedau Gwynedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud ei orau drostynt | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Fframwaith corfforaethol cyson yn cael ei defnyddio ar draws y gorfforaeth i yrru gweithgareddau ymgysylltu (gan gynnwys cyfundrefn reolaethol briodol) | Cynnydd yn ymwybyddiaeth ymysg swyddogion allweddol | • Mwy o ddinasyddion yn cael cyfle i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd o fewn y sir yn y meysydd o ddiddordeb iddynt.<br>• Cyfres o gynlluniau'r Cyngor wedi eu cyd-drafod a'u cyd-ddatblygu gyda thrigolion.<br>• Trigolion yn medru defnyddio teclynnau modern i gyflwyno eu barn/syniadau. |
| Panel trigolion yn cael ei ddefnyddio i sefydlu barn carfannau o drigolion yn unol â blaenoriaethau corfforaethol | Barn y Panel Trigolion wedi ei sicrhau ar nifer o brif faterion y Cyngor | |
| Defnyddio technegau modern i ymgeisio ymgysylltu â thrawstoriad o drigolion | Dim buddiant wedi ei hadnabod ar gyfer 2011/12 | |

| **Teitl y Prosiect: Grymuso Cymunedau Gwynedd** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Mwy o drigolion a chymunedau Gwynedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud ei orau drostynt<br>Mwy o bobl a chymunedau hyderus efo'r gallu i ddatblygu eu hatebion eu hunain a bod yn fwy hunangynhaliol | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Cynnal gwaith sgopio mewn perthynas â hyd a lled y cynllun "Ffocws ar Ardaloedd Gwynedd" gan ystyried y cyd berthynas gyda Fforymau Ardal a Phartneriaethau Cymunedol Lleol | Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn y gwaith sgopio | • Mwy o gymunedau yn gyfrifol am gyflawni gwasanaethau ac am benderfynu ar eu blaenoriaethau o |

| | | |
|---|---|---|
| Fforymau Ardal<br>Creu fforymau ardal i sicrhau ein bod yn datblygu atebion lleol i broblemau lleol ar y cyd gyda'r gymuned leol. | Ffiniau ardaloedd i'w defnyddio wedi eu diffinio. | fewn eu hardaloedd.<br>• Rhestr fanylach o ddyheadau'r ardaloedd unigol ar gyfer eu cyflwyno i'r gwasanaethau / C3B.<br>• Trefniadau i ystyried ac ymateb fel sydd yn briodol i ddyheadau'r fforymau ardal.<br>• Mwy o gymunedau lleol yn medru darganfod atebion eu hunain i broblemau lleol.<br>• Eglurder ynghylch lefel adnodd dylid ei glustnodi ar gyfer yr ardaloedd. |
| Partneriaethau Cymunedol Lleol<br>• Creu mwy o bartneriaethau lleol o fewn cynghorau cymuned i gyflawni gwasanaethau lleol eu natur.<br>• Sicrhau cyfundrefn ar gyfer arfogi grwpiau cymunedol i gymryd cyfrifoldebau am weithgareddau os dymunant wneud hynny. | Penderfyniad y Cyngor ynghylch ymestyn y cynllun i ardaloedd eraill. Eglurder ynghylch y dull orau i annog cymunedau ehangach i gymryd cyfrifoldebau am weithgareddau os dymunant wneud hynny. | |
| Cyllidebau Lleol<br>Cynllun ar waith fydd yn rhoi adnoddau go iawn i'r fforymau ardal fedru eu defnyddio i ddiwallu anghenion eu hardaloedd ac i gymunedau benderfynu ar ddyraniad adnoddau | Dim buddiant wedi ei hadnabod ar gyfer 2011/12 | |

| **Teitl y Prosiect: Gofal Cwsmer** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Mwy o drigolion a chymunedau Gwynedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud ei orau drostynt<br>Mwy o gwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd. | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Ail ddiffinio Strategaeth Gofal Cwsmer<br>• Cyfundrefn ar waith i sicrhau fod diwylliant gofal cwsmer yn greiddiol o fewn gweithgareddau'r Cyngor fydd yn cynnwys fframwaith sylfaenol i gyfarch hyfforddi a | Cyfeiriad wedi ei osod ar gyfer gwella Gofal Cwsmer, drwy ail-ddiffinio'r strategaeth ac adnabod gwasanaeth penodol ar gyfer gwaith dwys.<br>Cyfres o fesurau wedi eu mabwysiadu | • Bodlonrwydd cwsmeriaid o fewn unedau a effeithir yn gwella.<br>• Diwylliant gofal cwsmer wedi ei wreiddio mewn rhai maes gwasanaeth sydd wedi eu |

| | | |
|---|---|---|
| datblygu a sicrhau ei fod yn digwydd.<br>• Ymgyrch benodol o fewn sawl uned i newid diwylliant | er mwyn dangos ansawdd gwasanaethau'r Cyngor i'r cwsmer. | blaenoriaethu i gael sylw.<br>• Mesurau ansawdd gwasanaeth i drigolion yn gwella.<br>• Gwasanaethau i gwsmeriaid sy'n cwrdd â'u gofynion yn well.<br>• 4 ymyrraeth bellach wedi eu cwblhau gan ddangos sut yr ydym wedi gwella gwasanaeth i gwsmeriaid a sut y mae'r gwasanaethau yn fwy effeithlon |
| Trawsnewid Busnes<br>• Gweithgareddau trawsnewid busnes perthnasol wedi ei gyflwyno i reolwyr canol y cyngor fel arf i wella gwasanaeth i gwsmeriaid<br>• 8 ymyrraeth wedi eu cyflawni'n llawn er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmeriaid | Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn canlyniad y 2 ymarferiad peilot. 2 ymyrraeth wedi eu cwblhau gan ddangos sut yr ydym wedi gwella gwasanaeth i gwsmeriaid a sut y mae'r gwasanaethau yn fwy effeithlon. | |

**Teitl y Prosiect: Y Gweithlu**

**Profiad/au:** Mwy o staff yn teimlo eu bod yn rhan o'r Cyngor ac yn cael eu gwerthfawrogi
Bod y Cyngor yn cyflawni fwy o ganlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth
Mwy o gwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd.

| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
|---|---|---|
| Cynnal adolygiad i drefniadau cyfathrebu mewnol er mwyn adnabod beth yw effaith y gwahanol ddulliau o gyfathrebu. Creu a gweithredu ar raglen waith yn deillio o ganlyniadau'r adolygiad | Gwell ymwybyddiaeth o'r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn gwella cyfathrebu mewnol | • Gweithlu wedi cael y cyfle i ddatblygu eu potensial o fewn y Cyngor gan ddringo'r ysgol 'yrfa.<br>• Staff yn teimlo eu bod yn rhan o'r Cyngor drwy fod yn ymwybodol o newidiadau a chael y cyfle i gyd-ddatblygu newidiadau a fydd yn eu heffeithio.<br>• Staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y Cyngor. |
| Datblygu cyfundrefn "Arweinyddiaeth Weladwy" ble mae'r Tîm Arweinyddiaeth, penaethiaid ac uwch reolwyr yn ymweld gyda'r swyddfeydd ardaloedd. | Arweinyddiaeth yn trafod materion wyneb yn wyneb gyda staff | |
| Buddiannau | Cyfres o ddulliau i hybu iechyd staff mewn lle sydd yn cynyddu | |

| | | |
|---|---|---|
| • Gweithredu pecyn o fuddiannau er mwyn hybu iechyd y gweithlu o fewn a thu allan i'r gweithle ac uchafu'r buddion a geir o weithio i'r Cyngor.<br>• Datblygu pecyn sydd yn hybu agwedd gymdeithasol o weithio gyda'r Cyngor, er enghraifft y sialens gorfforaethol.<br>• Creu datganiad gwobr gyflawn (Total Reward Statement) i staff, a fydd yn eu hysbysu pa fuddiannau sydd ar gael a pha rhai maent yn elwa ohono. | bodlonrwydd staff. | • Staff yn llawn ymwybodol o werth llawn eu pecyn cyflogaeth.<br>• Gostyngiad yng nghanran o staff y mae'r Cyngor am eu cadw sydd yn dewis symud i weithio tu allan i'r Cyngor.<br>• Arddull cymhelliant ar draws y Cyngor.<br>• Cynnydd ym mherfformiad adrannau/uned |
| Ymchwilio i ddulliau ar gyfer rheoli talent, gan ddatblygu cynllun er mwyn adnabod unigolion sydd gyda photensial, ac yna datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer yr unigolion sydd wedi eu hadnabod, er enghraifft drwy sefydlu cynlluniau secondio, cysgodi rheolwyr a.y.y.b. | Eglurder ynghylch sut i adnabod staff sydd gyda photensial i'w datblygu | |
| Datblygu'r arddull cymhelliant ymysg y rheolwyr, drwy ddatblygu'r gyfundrefn a hyfforddiant. Yn ogystal â thargedu grwpiau penodol ar gyfer datblygu a chyflwyno'r gyfundrefn "Cymhelliant Datblygiadol 1:1". | Rheolwyr newydd yn derbyn cymhelliant datblygiadol fel rhan o raglen anwytho | |
| Diffinio ein gweledigaeth ar gyfer rheoli yng Ngwynedd drwy:<br>• Symud o gyfundrefn hyfforddi draddodiadol i gyfundrefn newydd gyda'r pwyslais ar gyfundrefn dysgu a datblygu.<br>• Mewn un adran/uned fusnes penodol arbrofi ffordd holistaidd i wella dulliau | Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn gwaith sgopio. | |

| | | |
|---|---|---|
| rheoli er mwyn creu diwylliant rheolaethol fydd yn cyflawni llawn botensial y gweithlu. | | |
| Ymchwilio ac adnabod nodweddion timau sydd â pherfformiad uchel. Creu a chyflwyno ymyraethau ar sail y rhain er mwyn uchafu cyfraniad gweithio fel tîm ar draws y Cyngor. | Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn gwaith sgopio | |
| Adnabod y rhwystrau presennol ar gyfer creu strwythur gweithlu ystwyth, gan ddatblygu ac yna gweithredu cyfres o opsiynau dewisol, e.e. creu swydd ddisgrifiadau hyblyg sydd yn caniatáu staff i symud ar draws adrannau. | Eglurder ynghylch sut i greu strwythur gweithlu ystwyth | |

**Teitl y Prosiect: Trefniadau Democrataidd y Cyngor**

**Profiad/au:** Bod y Cyngor yn cyflawni fwy o ganlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth

| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
|---|---|---|
| Cyflwyno model i'r Cynulliad i newid i drefniadau gweithredol o lywodraethu (h.y. Cabinet) | Cytundeb y Cyngor Llawn ynghylch cynigion terfynol. | Strwythur llywodraethu cyfreithlon ac effeithiol yn ei le |
| Datblygu a rhoi ar waith gynlluniau i ddatblygu diwylliant, aelodau a threfniadau'r Cyngor newydd | Darpar ymgeiswyr yn ymwybodol o'r newidiadau | |
| Datblygu rôl amgen ar gyfer cynghorwyr fel cynrychiolwyr lleol | Trefn llywodraethu wedi ei sefydlu sydd yn dal y cabinet i gyfrif | |

**Teitl y Prosiect:** Comisiynu gyda Ffocws ar Ganlyniadau

**Profiad/au:** Bod y Cyngor yn cyflawni fwy o ganlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth

| Gweithgareddau'r Prosiect | Buddion ar hyd y daith – 2011/12 | Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14 |
|---|---|---|
| Datblygu'r gyfundrefn Cynllun Tair Blynedd i sicrhau bod y prif brosiectau'n cael eu comisiynu ar sail canlyniadau. | Cynllun Tair Blynedd wedi ei gomisiynu ar sail canlyniadau yn ei le | • Gwasanaethau a phrosiectau'n cael eu comisiynu ar sail canlyniadau sydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i drigolion Gwynedd.<br>• Dau faes gwariant wedi eu comisiynu ar sail canlyniadau.<br>• Gwelliant arwyddocaol i berfformiad y gwasanaethau er budd y cwsmer a'r Cyngor.<br>• Cytundebau cynaliadwy wedi eu llunio ar gyfer pob cytundeb dros £500k.<br>• Rhai o wasanaethau wedi eu comisiynu gan y trydydd sector (yn ddibynnol ar y budd blaenorol a'r blaenoriaeth comisiynu). |
| Datblygu'r gyfundrefn Adolygiadau Strategol i sicrhau bod y prif feysydd gwariant yn cael eu comisiynu ar sail canlyniadau. | Dau faes gwariant wedi eu comisiynu ar sail canlyniadau | |
| Gweithredu dull canlyniadau sydd yn cyfrif i gryfhau ffocws y gwasanaethau ar ganlyniadau i drigolion. | Holl gynlluniau busnes yn adlewyrchu'r dyhead i sicrhau bod ffocws y gwaith ar ganlyniadau. | |
| Gwella perfformiad mewn rhai gwasanaethau sydd yn tanberfformio. | Gwelliant arwyddocaol i berfformiad y gwasanaethau er budd y cwsmer a'r Cyngor | |
| Gweithredu'r polisi caffael cynaliadwy a thargedu prif wariant (dros £500k) y Cyngor | Cytundebau cynaliadwy wedi eu llunio ar gyfer pob cytundeb dros £500k | |
| Datblygu a gweithredu trefniadau i sicrhau datblygiadau priodol gyda'r trydydd sector | Eglurder ynghylch meysydd lle gall 3ydd sector ddarparu gwasanaethau yn unol â blaenoriaethau comisiynu'r Cyngor | |

| **Teitl y Prosiect: Cefnogi Newid** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Bod y Cyngor yn cyflawni fwy o ganlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth<br>Gwell gwasanaethau drwy gyfres o newidiadau arloesol | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Rhaglen hyfforddi ar gyfer cefnogi newid wedi ei ddatblygu ac yn weithredol ar gyfer uwch | Rheolwyr wedi derbyn y sgiliau er mwyn cefnogi newid yn llwyddiannus | • Gallu'r Cyngor i arwain a rheoli |

| | | |
|---|---|---|
| reolwyr, penaethiaid a chyfarwyddwyr | | newidiadau mawr sydd yn effeithio ar ein cymunedau wedi ei gryfhau.<br>• Prosiectau newid yn llwyddo i arwain a rheoli newid yn llwyddiannus.<br>• Prif fuddiannau'r prosiectau allweddol wedi eu gwireddu.<br>• Capasiti Cefnogi Newid wedi ddefnyddio i wireddu budddion ar y daith ar gyfer y prosiectau allweddol.<br>• 10 o syniadau arloesi wedi eu mabwysiadu ar bob lefel o'r Cyngor. |
| Datblygu Capasiti Cefnogi Newid, drwy adnabod y prosiectau allweddol sydd angen cymorth y tîm ac yna dyrannu'r adnoddau yn unol â'r flaenoriaeth. | Buddiannau ar hyd y daith y prosiectau allweddol wedi eu gwireddu<br>Capasiti Cefnogi Newid wedi defnyddio i wireddu buddion ar y daith ar gyfer y prosiectau allweddol. | |
| Datblygu diwylliant arloesol ymysg y staff | 10 o syniadau arloesi wedi eu mabwysiadu ar bob lefel o'r Cyngor | |
| Cymryd stoc o effaith datblygiad arweinyddiaeth hyd yn hyn gyda golwg ar welliannau sylweddol pellach er mwyn ymdopi gyda'r agenda trawsffurfio. | Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn y gwaith sgopio. | |

9.3 Gwelir isod restr o'r dangosyddion rhaglenni, sydd yn ceisio mesur cynnydd y rhaglen tuag at wireddu'r Profiadau y maent yn anelu tuag atynt

| **Dangosyddion Rhaglen:** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Cyrhaeddiad 2014** |
| Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod yn fodlon ynghylch y ffordd mae'r Cyngor yn rhedeg pethau | 43% | Cynnydd |
| Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod am fod fwy ynghlwm â phenderfyniadau sydd yn effeithio eu hardal leol | 29% | Cynnydd |
| Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod yn | 34% | Cynnydd |

| | | |
|---|---|---|
| fodlon gyda chanlyniad y gwasanaeth a dderbyniwyd yn dilyn eu cyswllt gyda'r Cyngor | | |
| Cynnydd yn lefel bodlonrwydd staff gyda'r Cyngor fel lle da i weithio | D/B | Cynnydd o 5% ers yr arolwg staff diwethaf |
| Canran dangosyddion y rhaglenni sydd wedi cwrdd â'u targedau | 64% | 70% |
| Canran y prosiectau yn y rhaglenni sydd yn debygol o gyflawni'r prif fuddiant | D/B | 70 – 75% |
| Cynlluniau trawsffurfiadol a geir yn y rhaglenni wedi eu cwblhau ac wedi effeithio ar berfformiad y dangosydd. | D/B | 70 – 75% |

## 10. CYNIGION Y RHAGLEN ARBEDION AR GYFER 2011-14

### 10.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a’r Profiadau

Gweledigaeth y Rhaglen Arbedion yw:-



Dilwyn O Williams
Arweinydd Rhaglen

Bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ganddo gan gynnig gwerth-am-arian i drethdalwyr lleol. Byddwn yn chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, gan edrych y tu hwnt i ffiniau’r Cyngor a chydweithio â chyrff eraill i sicrhau’r budd mwyaf i’n trigolion.

Dros y blynyddoedd nesaf bydd cyflawni’r uchod yn fwy pwysig nag erioed. Rydym yn wynebu cyfnod o doriadau sylweddol mewn gwariant cyhoeddus, fydd yn golygu bod cyllid y Cyngor yn lleihau ar raddfa na welwyd o’r blaen. Oni bai ein bod yn mynd i’r afael â’r her yma byddai perygl i holl sail ariannol y Cyngor ac felly ein gallu i wasanaethu’n trigolion.

Byddwn felly yn mynd ati i sicrhau ein bod yn ymdopi â’r her ariannol sydd o’n blaenau, tra'n ceisio sicrhau bod cyn lleied â phosib o effaith andwyol ar y gwasanaethau sy’n bwysig i bobl Gwynedd.

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniad yr ydym am weithio tuag ato:-

- Cyflawni’r swm arbedion sydd ei angen ar gyfer cwrdd â gofynion strategaeth ariannol y Cyngor dros y cyfnod, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar ganlyniadau i drigolion Gwynedd.

Yn ogystal, rydym wedi nodi’r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio’r prif elfennau o’r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o’r un safon, ond am lai o gost;

- Bydd trigolion wedi cael cyfle i roi'u barn ar eu blaenoriaethau cyn penderfynu pa wasanaethau i'w torri, os bydd yn rhaid gwneud hynny.

10.2 Gwelir isod restr o'r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

| **Teitl y Prosiect: Targed effeithlonrwydd gwasanaethau** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Targed effeithlonrwydd gwasanaethau | Pecyn o gynlluniau effeithlonrwydd ar gyfer y blynyddoedd dilynol wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor. | Cyfanswm arbedion ariannol o £3.0m, heb effeithio ar ganlyniadau i'r cyhoedd. |

| **Teitl y Prosiect: Prosiect effeithlonrwydd corfforaethol** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Lean | Canlyniad y 2 ymarferiad peilot gennym ac wedi arwain at wasanaethau mwy effeithlon. Penderfyniad ar gamau pellach. | Achosion busnes wedi'u cytuno, a phenderfyniad ar weithredu, ar gyfer ffrydiau gwaith pellach<br><br>Cyfanswm arbedion o £4.2m, nad ydynt yn effeithio ar ganlyniadau i'r |
| Adolygiadau Strategol | Eglurder am y gyfundrefn i'r dyfodol gan ystyried gwersi a ddysgwyd o'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adolygiad Hamdden. Opsiynau wedi'u hadnabod ar gyfer y maes AAA, a phenderfyniad ar weithredu. | cyhoedd, wedi eu hadnabod ar gyfer eu gwireddu<br><br>Arbedion effeithlonrwydd pellach, uwchlaw'r targed gwreiddiol, wedi eu hadnabod |
| Cydweithio | Achosion busnes rhanbarthol wedi'u cytuno ac wedi eu derbyn gan y Cyngor. | |
| Adolygiadau Gweithredol | Achosion busnes ar gyfer Anableddau Dysgu, Henoed a Phlant mewn Gofal wedi'u derbyn, a phenderfyniad ar weithredu. | |
| Lleihau Cost y Gweithlu | Achos busnes wedi ei dderbyn a phenderfyniad ar weithredu. | |
| Defnydd o Dechnoleg | Achos busnes a chynllun gweithredu ar gyfer VOIP, EDRMS ac 'Open Source'. | |
| Channel Migration | Achos busnes a phenderfyniad ar weithredu. | |
| Total Place | Achos busnes a phenderfyniad ar weithredu. | |
| Cyffredinol - Prosiect cyfan | Arbedion effeithlonrwydd gwerth o leiaf £0.5m wedi eu hadnabod ar gyfer gweithredu yn ogystal â chyfleoedd arbedion ychwanegol i'r ffrydiau gwaith uchod. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Prosiect: Newid polisïau cyllidebol** | | |
| **Profiad/au:** Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |

| | | |
|---|---|---|
| Newid polisïau cyllidebol | Polisïau diwygiedig yn eu lle sydd yn arwain at lai o ofyn ar y gyllideb. Arbedion ariannol o £1.2m. | Arbedion ariannol o leiaf £1.6m, heb effeithio ar ganlyniadau i'r cyhoedd. |

| **Teitl y Prosiect: Codi incwm** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Cynhyrchu incwm | Penderfyniad ar feysydd gweithredu ac unrhyw waith datblygu pellach. | Arbedion ariannol o leiaf £0.6m wedi eu gwireddu<br><br>Incwm ychwanegol yn deillio o newidiadau deddfwriaethol (yn amodol ar lwyddiant wrth bwyso am y newidiadau hynny). |
| Treth Cyngor ar ail gartrefi | Sylw i'r mater yn y Cynulliad. | |
| Disgownt Person Sengl | Incwm ychwanegol unwaith-ac-am-byth yn dilyn gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad. | |

| **Teitl y Prosiect: Toriadau** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Bydd trigolion wedi cael cyfle i roi'u barn ar eu blaenoriaethau cyn penderfynu pa wasanaethau i'w torri, os bydd yn rhaid gwneud hynny | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Toriadau | - | Cyfanswm arbedion ariannol o £2.4m (allai newid yn dibynnu ar newid i gyfanswm yr arbedion sydd eu hangen a/neu lwyddiant o ran canfod |

| | | |
|---|---|---|
| | | mwy o arbedion effeithlonrwydd na'r targed). Cyflawni canlyniadau i'r cyhoedd yn unol â'r hyn addawyd, ar ôl adnabod yr effaith tebygol wrth benderfynu ar doriadau ac yna wrth osod mesurau perfformiad. |

| **Teitl y Prosiect: Ysgolion** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost<br>Bydd trigolion wedi cael cyfle i roi'u barn ar eu blaenoriaethau cyn penderfynu pa wasanaethau i'w torri, os bydd yn rhaid gwneud hynny | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Ysgolion | Gwireddu gostyngiadau yng nghyllidebau ysgolion sy'n gyson gyda'r amcan o geisio eu gwarchod rhag y toriadau gwaethaf. | Ysgolion wedi wynebu canran llai o arbedion na chyfanswm gweddill gwasanaethau'r Cyngor. |

| **Teitl y Prosiect: Prosiectau "galluogi"** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Gweithio'n Hyblyg | Penderfyniad ar gynllun ehangach, yn ddibynnol ar dystiolaeth am y buddion o'r ymarferiadau peilot. | Hwyluso arbedion o fewn prosiectau eraill drwy alluogi ail-drefnu |

| | | |
|---|---|---|
| Strategaeth Rheoli Gwybodaeth | Llawlyfr Rheoli Cofnodion wedi'i gyhoeddi er mwyn rhoi arweiniad i staff. | gweithgareddau. Gallu canfod a defnyddio gwybodaeth yn well ar draws y Cyngor. |
| System Adnoddau Dynol | Penderfyniad ar gyfeiriad o ran cydweithio yn y maes yma. Os na fyddwn yn cydweithio – system wedi ei phrynu a chychwyn ei mewnosod. | |

| **Teitl y Prosiect: Cynlluniau "Grŵp C"** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost<br>Bydd trigolion wedi cael cyfle i roi'u barn ar eu blaenoriaethau cyn penderfynu pa wasanaethau i'w torri, os bydd yn rhaid gwneud hynny | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Cynlluniau Grŵp C | Adroddiad i'r Cyngor ar ganlyniadau'r prosiect cyfan, ac i drosglwyddo elfennau sydd angen mwy o waith i brosiectau eraill os oes angen. | Arbedion ariannol, fydd ar gael i lenwi am unrhyw fethiant anorfod i gyflawni cynlluniau eraill, neu i ostwng y targed toriadau. |

| **Teitl y Prosiect: Gwireddu Arbedion** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Gwireddu Arbedion | Cyflawni cyfanswm arbedion gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn o | Holl symiau arbedion a gynlluniwyd ar draws y prosiectau perthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | £5.0m. | (cyfanswm o leiaf £14.7m) wedi'u cyflawni. |

| **Teitl y Prosiect: Cytundeb Canlyniadau** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost<br>Bydd trigolion wedi cael cyfle i roi'u barn ar eu blaenoriaethau cyn penderfynu pa wasanaethau i'w torri, os bydd yn rhaid gwneud hynny | | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Cytundeb Canlyniadau | Cytundeb gan Lywodraeth y Cynulliad bod y Cyngor wedi dangos ei fod wedi cyflawni'r cynnydd a fwriadwyd, a chadarnhad y byddwn yn derbyn 100% o'r swm posibl (£1.3m). | Y Cyngor wedi dangos ei fod wedi cyflawni'r canlyniadau addawyd yn y Cytundeb Canlyniadau. |

10.3 Gwelir isod restr o'r dangosyddion rhaglenni, sydd yn ceisio mesur cynnydd y rhaglen tuag at wireddu'r Profiadau y maent yn anelu tuag atynt

| **Dangosyddion Rhaglen:** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Cyrhaeddiad 2014** |
| Swm arbedion a gyflawnwyd | Cyflawnodd y Cyngor £15.1m o arbedion rhwng 2007/08 a 2010/11. Mae'r Cynllun Rhaglen yma yn cyfeirio at arbedion newydd ar ben y rhai a gyflawnwyd eisoes. | Arbedion ariannol parhaol o £21.7m wedi'u tynnu o'r gyllideb, gan sicrhau ein bod wedi paratoi ar gyfer arbed £7.3m pellach yn y bedwaredd flwyddyn. |

| | | |
|---|---|---|
| O fewn y swm arbedion uchod sydd yn<br>• effeithlonrwydd<br>• codi incwm<br>• arall | O’r £15.1m o arbedion weithredwyd rhwng 2007/08 a 2010/11, cyflawnwyd £8.8m (58%) drwy arbedion effeithlonrwydd a £2.7m (18%) drwy godi incwm. | Cyfanswm arbedion y 3 blynedd* o leiaf £16.0m drwy gynlluniau Effeithlonrwydd a £1.4m drwy gynlluniau Codi Incwm.<br>* gan gynnwys rhai gytunwyd eisoes yn y pecyn £16m |
| Dangosyddion Allweddol Ansawdd Gwasanaeth yn y meysydd lle cyflawnir arbedion effeithlonrwydd a thoriadau | Gwybodaeth i’w gasglu am lefel perfformiad hanesyddol | Dim effaith andwyol ar berfformiad pan weithredir arbedion effeithlonrwydd.<br><br>Mewn meysydd lle gwneir toriadau, effaith ar berfformiad yn unol â’r hyn ragwelwyd wrth gytuno ar y toriadau. |

## 11. CYNIGION Y PROSIECT STRATEGOL GWELLA IECHYD AR GYFER 2011-14

### 11.1 Y Canlyniad a'r Profiadau

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniad yr ydym am weithio tuag ato:-

Pobl Gwynedd yn byw bywydau iachach

Yn ogystal, rydym wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- Mwy o bobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach
- Mwy o bobl Gwynedd yn cael yr un cyfle i fwynhau'r iechyd gorau posib
- Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib
- Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu iechyd staff yn y gweithle ac yn ceisio dylanwadu ar gyflogwyr eraill



Dafydd P Lewis
Arweinydd Prosiect

11.2 Gwelir isod restr o'r gweithgareddau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

| **Teitl: Gwynedd Iach** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:**<br>Mwy o bobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach<br>Mwy o bobl Gwynedd yn cael yr un cyfle i fwynhau'r iechyd gorau posib<br>Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |

| | | |
|---|---|---|
| Gwynedd Iach | Cyfres o negesuon i hybu neges Gwynedd Iach wedi eu datblygu | Mwy o bobl Gwynedd yn dewis ffordd iach o fyw |

| **Teitl: Segurdod** | | |
|---|---|---|
| **Profiadau:**<br>Mwy o bobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach<br>Mwy o bobl Gwynedd yn cael yr un cyfle i fwynhau'r iechyd gorau posib<br>Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Hyrwyddo Gwynedd Egniol | Rhaglen waith wedi'i chytuno | Mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgaredd egniol gan wneud diwrnod yn ychwanegol a mwy o gyfleon yng Ngwynedd i hybu gweithgaredd egniol |

| **Teitl: Tybaco** | | |
|---|---|---|
| **Profiadau**<br>Mwy o bobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach<br>Mwy o bobl Gwynedd yn cael yr un cyfle i fwynhau'r iechyd gorau posib<br>Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Hyrwyddo Gwynedd Di fwg | Rhaglen waith wedi'i chytuno | Llai o bobl Gwynedd yn adrodd eu |

| | | |
|---|---|---|
| | | bod yn ysmygu a mwy o weithgareddau i'w cefnogi i roi'r gorau iddi hi |

| **Teitl: Alcohol a Chamddefnyddio Sylweddau** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:**<br>Mwy o bobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach<br>Mwy o bobl Gwynedd yn cael yr un cyfle i fwynhau'r iechyd gorau posib<br>Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Hyrwyddo yfed yn gall a llai o gamddefnydd cyffuriau | Rhaglen waith wedi'i chytuno | Llai o bobl Gwynedd yn adrodd eu bod yfed mwy na'r canllawiau alcohol cydnabyddedig a chynnydd yn y gefnogaeth sydd ar gael |

| **Teitl: Gordewdra** | | |
|---|---|---|
| **Profiadau:**<br>Mwy o bobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach<br>Mwy o bobl Gwynedd yn cael yr un cyfle i fwynhau'r iechyd gorau posib<br>Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Hyrwyddo Bwyta'n Iach | Rhaglen waith wedi'i chytuno | Llai o bobl Gwynedd yn adrodd eu bod yn dew neu'n ordew a mwy o |

| | | |
|---|---|---|
| | | weithgareddau i hybu a chefnogi bwyta'n iach |

| **Teitl: Iechyd ar draws y Cygor** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:**<br>Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| **Blaenoriaethu iechyd o fewn holl weithgareddau Cyngor Gwynedd** | Rhaglen waith wedi'i chytuno | Gwella iechyd yn flaenoriaeth o fewn holl weithgareddau'r Cyngor |

| **Teitl: Iechyd Corfforaethol** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:**<br>Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu iechyd staff yn y gweithle ac yn ceisio dylanwadu ar gyflogwyr eraill | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| **Hyrwyddo Iechyd o fewn y gweithlu, eu teuluoedd a'r gymuned** | Rhaglen waith wedi'i chytuno | Ennill Safon Iechyd Corfforaethol yn arwydd o ymrwymiad y Cyngor i wella iechyd a lles y gweithlu a iechyd a lles cymunedau Gwynedd |

11.3 Gwelir isod restr o'r dangosyddion prosiect strategol, sydd yn ceisio mesur cynnydd y prosiect tuag at wireddu'r profiadau y maent yn anelu tuag atynt

| **Dangosyddion Prosiect Strategol:** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Cyrhaeddiad 2014** |
| Targedau *Creu Cymru Egniol* 'Un diwrnod yn rhagor' i blant ac oedolion | gwaelodlin ddim ar gael tan 2011/12 | i'w pennu mewn ymgynghoriad efo Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn ysmygu | 25% | i'w bennu mewn ymgynghoriad efo Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn bwyta 5 dogn o ffrwythau a lysiau pob dydd | 42% | i'w bennu mewn ymgynghoriad efo Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn dew neu'n ordew | 55% | i'w bennu mewn ymgynghoriad efo Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau cydnabyddedig | 47% | i'w bennu mewn ymgynghoriad efo Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Nifer y dyddiau a gollwyd i salwch yng Nghyngor Gwynedd | 10 diwrnod mesul unigolyn | 8 diwrnod mesul unigolyn |

## 12. CYNIGION Y PROSIECT STRATEGOL IAITH AR GYFER 2011-14

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniad yr ydym am weithio tuag ato:-



Iwan Trefor Jones
Arweinydd Prosiect

Pobl yn byw trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngwynedd

Yn ogystal, rydym wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- Teuluoedd yn magu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg
- Plant a phobl ifanc yn byw, dysgu, gweithio a mentro trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol
- Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd
- Y Gymraeg yn iaith fusnes yng ngweithleoedd Gwynedd

12.2 Gwelir isod restr o'r gweithgareddau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

| **Teitl: Trawsnewid y gefnogaeth i rieni ddatblygu eu hyder a'u sgiliau yn y Gymraeg** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Teuluoedd yn magu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg / Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Datblygu a gweithredu cynllun peilot mewn 2 ardal fydd yn sicrhau cyfleoedd a chefnogaeth briodol i rieni fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant | Rhagor o rieni yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant | Rhagor o rieni yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant (yn ddibynnol ar gyllideb) |

| **Teitl: Rhieni yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg** |
|---|

| **Profiad/au:** Teuluoedd yn magu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg | | |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Llunio a gweithredu rhaglen dreigl o hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith i weithlu allweddol mewn ysgolion cynradd, ac yn ei sgil, sicrhau fod sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith wedi eu cynnal i rieni fel peilot mewn 1 dalgylch | Rhagor o rieni yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg | Rhagor o rieni yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg |
| Cynllunio a chynnal ymgyrch farchnata proffil uchel er mwyn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a gwerth y Gymraeg fel sgil | Rhagor o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg | |
| Y gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn trosglwyddo negeseuon i rieni am fanteision magu plant yn ddwyieithog | Rhagor o rieni yn ymwybodol o fanteision magu plant yn ddwyieithog | |

| **Teitl: Darparwyr addysg feithrin Gwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Teuluoedd yn magu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg / Plant a phobl ifanc yn byw, dysgu, gweithio a mentro trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Comisiynu hyfforddiant priodol i ddarparwyr addysg feithrin i osod sylfaen gadarn i'r Gymraeg | Cynnydd yn nifer darparwyr addysg feithrin Gwynedd sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg yn unol â gofynion y Cyfnod Sylfaen | Holl ddarparwyr addysg feithrin Gwynedd yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg yn unol â gofynion y Cyfnod Sylfaen (yn ddibynnol ar gyllideb) |

| **Teitl: Trawsnewid defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg ymysg plant sector cynradd Gwynedd** |
|---|

| **Profiad/au:** Plant a phobl ifanc yn byw, dysgu, gweithio a mentro trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol / Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd | | |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Llunio a datblygu rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr a phriodol ar gyfer holl weithlu ysgolion cynradd Gwynedd er mwyn cynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg | Cynnydd yn y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant sector cynradd Gwynedd | Ysgolion Gwynedd yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cefnogi arferion iaith plant a phobl ifanc (yn ddibynnol ar gyllideb) |
| Cynllun Siarter Iaith Ysgolion yn seiliedig ar y Cynllun Ysgolion Iach a'r Cynllun Ysgolion Gwyrdd a'r Eco 'Sgolion yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd | Ysgolion cynradd Gwynedd yn hyrwyddo'r Gymraeg | |
| Cynnal digwyddiad proffil uchel i godi ymwybyddiaeth o rôl y gweithlu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg | Gweithlu ysgolion cynradd Gwynedd wedi eu harfogi o bwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr Ysgol | |

| **Teitl: Trawsnewid y ddarpariaeth Hamdden, Ieuenctid, a Chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Plant a phobl ifanc yn byw, dysgu, gweithio a mentro trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol / Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Datblygu Pencampwyr Iaith yng Nghanolfannau Hamdden Gwynedd | Canolfannau Hamdden Gwynedd yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau anffurfiol | Canolfannau Hamdden Gwynedd yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau anffurfiol (yn ddibynnol ar gyllideb) |

| | | |
|---|---|---|
| Llunio a gweithredu rhaglen o weithgareddau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg gyda phobl ifanc mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd â phartneriaid eraill | Darparwyr gwaith ieuenctid yn cynnal gweithgareddau sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg ymysg pobl ifanc | Darparwyr gwaith ieuenctid yn cynnal gweithgareddau sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg ymysg pobl ifanc (yn ddibynnol ar gyllideb) |
| Llunio a chynnal sesiynau pwrpasol er mwyn dylanwadu a chodi ymwybyddiaeth am y Gymraeg mewn clybiau chwaraeon yng Ngwynedd | Rhagor o glybiau chwaraeon yn hyrwyddo'r Gymraeg | Rhagor o glybiau chwaraeon yn hyrwyddo'r Gymraeg (yn ddibynnol ar gyllideb) |

| **Teitl: Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn y gymuned** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Buddsoddi mewn cynllun cyfieithu cymunedol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg | Rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned | Rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned (yn ddibynnol ar gyllideb) |
| Cymunedau wedi derbyn hyfforddiant i'w galluogi i gynnal awdit o'u hasedau ffisegol, naturiol a diwylliannoli'w harfogi i gynyddu eu capasiti i ddatblygu cynlluniau/asedau cymunedol sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg | Rhagor o gymunedau wedi canfod gwaelodlin ar gyfer y Gymraeg yn lleol | Cymunedau wedi eu harfogi i hyrwyddo'r Gymraeg a chynllunio'n ieithyddol |

| **Teitl: Cynlluniau cymathu yn llwyddiannus yn ymdoddi dysgwyr i weithgarwch cymunedol cyfrwng Cymraeg** | | |
|---|---|---|
| **Profiad/au:** Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd | | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2011/12** | **Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14** |
| Sefydlu cynllun i bontio rhwng dysgwyr a | Cynllun cymathu yn weithredol mewn 2 | Cynlluniau cymathu yn weithredol (yn |

| | | |
|---|---|---|
| siaradwyr Cymraeg mewn 2 ardal | ardal | ddibynnol ar gyllideb) |
| Cyflwyno Llyfryn Croeso at ddefnydd holl ysgolion cynradd Gwynedd | Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon Gwynedd yn hwyluso cymathiad teuluoedd newydd | Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon Gwynedd yn hwyluso cymathiad teuluoedd newydd |

**Teitl: Trawsnewid gweithleoedd Gwynedd yn leoliadau sydd yn annog a chefnogi'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle**

**Profiad/au:** Y Gymraeg yn iaith fusnes yng ngweithleoedd Gwynedd

| Gweithgareddau | Buddion ar hyd y daith – 2011/12 | Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14 |
|---|---|---|
| Llunio a datblygu Academi Datblygu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr fel peilot yng Ngwynedd | Cynydd yn y defnydd proffesiynol o'r Gymraeg yng ngweithleoedd Gwynedd | Cynydd yn y defnydd proffesiynol o'r Gymraeg yng ngweithleoedd Gwynedd |
| Prosiect datblygol i gynyddu'r defnydd proffesiynol o'r Gymraeg yn y gweithle | Cynydd yn y defnydd proffesiynol o'r Gymraeg yng ngweithleoedd Gwynedd | |

**Teitl: Sefydlu'r Gymraeg fel arf Economaidd gweledol**

**Profiad/au:** Y Gymraeg yn iaith fusnes yng ngweithleoedd Gwynedd / Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd

| Gweithgareddau | Buddion ar hyd y daith – 2011/12 | Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14 |
|---|---|---|
| Sefydlu achos busnes fel sail i ddatblygu cyrchfan 'gwyliau Cymraeg' yng Ngwynedd | Gwell dealltwriaeth o fudd y Gymraeg fel arf economaidd yng nghyd-destun twristiaeth ddiwylliannol | Cynllluniau datblygu economaidd yn hyrwyddo'r Gymraeg |
| Sicrhau lle creiddiol i'r Gymraeg fel rhan o ddatblygiadau economaidd sylweddol | Pob datblygiad Economaidd sylweddol yn gweithredu Polisi Iaith | |

12.3 Gwelir isod restr o'r dangosyddion prosiect strategol, sydd yn ceisio mesur cynnydd y prosiect tuag at wireddu'r profiadau y maent yn anelu tuag atynt

| **Dangosyddion Prosiect Strategol:** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Cyrhaeddiad 2014** |
| % plant 3-4 oed sydd yn gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad) | Yng Ngwynedd, yn ôl Cyfrifiad 2001, 2 riant yn siarad Cymraeg gartref = 89.7% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; rhiant sengl yn siarad Cymraeg = 73.4% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; un o ddau riant yn siarad Cymraeg = 55.7% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; dim oedolyn yn siarad Cymraeg = 34.6% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg | Rhagor o deuluoedd yn defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd |
| % y plant sydd yn derbyn asesiad mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (dangosydd newydd) | Dim gwaelodlin | Rhagor o blant gyda sylfaen gadarn i'r Gymraeg erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen |
| Dim dangosydd ar gael | Yn ôl Arolwg Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant Sector Cynradd Gwynedd (Medi 2010); 70% o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r athro yn y dosbarth, 27% o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf gyda'u ffrindiau ar y buarth | Rhagor o blant yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn ysgolion cynradd Gwynedd.<br><br>Rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol |
| Nifer/% poblogaeth Gwynedd sydd yn gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad) | 69% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd yn ôl Cyfrifiad | Rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned |

| | | |
|---|---|---|
| | 2001, gostyngiad o -1.8% ers 1991. 41 Adran Etholiadol efo dros 70% o’r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 o gymharu â 60 ward yn 1991. | |
| Dim dangosydd ar gael | Dim gwaelodlin ar gael | Rhagor o’r gweithlu yn defnyddio’r Gymraeg yng ngweithleoedd Gwynedd |

## 13. CYNIGION Y PROSIECT STRATEGOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR GYFER 2011-14

### 13.1 Y Canlyniad a'r Profiadau

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniad yr ydym am weithio tuag ato:-

- Strategaeth a pholisiau cynllunio defnydd tir a fydd yn cyfarch y prif faterion sy'n gwynebu ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Gwynedd a Môn



Dafydd P Lewis
Arweinydd Prosiect

Yn ogystal, rydym wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- Cyflenwad digonol a parhaus o dir ar gyfer unedau preswyl
- Cyflenwad digonol a parhaus o dir ar gyfer cyflogaeth
- Safon amgylcheddol yr ardal yn cael ei gynnal neu ei wella
- Datblygiadau sy'n hydwyth i effeithiau newid hinsawdd
- Anghenion cymunedau yn cael eu cyfarch yn lleol.

13.2 Gwelir isod restr o'r gweithgareddau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

| **Teitl:** Cynllun Datblygu Lleol |
|---|
| **Profiad/au:**<br>Cyflenwad digonol a parhaus o dir ar gyfer unedau preswyl<br>Cyflenwad digonol a parhaus o dir ar gyfer cyflogaeth<br>Safon amgylcheddol yr ardal yn cael ei gynnal neu ei wella<br>Datblygiadau sy'n hydwyth i effeithiau newid hinsawdd<br>Anghenion cymunedau yn cael eu cyfarch yn lleol. |

| Gweithgareddau | Buddion ar hyd y daith – 2011/12 | Prif fuddiant y prosiect a buddion i'w gwireddu erbyn 2013/14 |
|---|---|---|
| Llunio y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | ▪ Bydd Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn ei le fydd yn cynnwys:<br>▪ Cynllun Rheoli Amserlen Paratoi'r CDLl ar y Cyd<br>▪ Cynllun Cynnwys Cymunedau<br><br>▪ Bydd cyfranogiad cyhoeddus ar opsiynau twf a dosbarthiad wedi digwydd a bydd dogfen wedi ei chynhyrchu fydd yn seiliedig ar y cyfranogiad. | Bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a dogfennau cysylltiol eraill wedi cael ei roi ar adnau ("y Cynllun Adnau") ers diwedd 2013 a bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gyflwyno'r Cynllun, y dogfennau cysylltiol a safbwynt y Cyngor am faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, i Lywodraeth y Cynulliad.<br><br>Bydd y Cynllun Adnau yn:<br>• dweud sut fydd yr ardal yn edrych erbyn 2026 – y weledigaeth a'r amcanion;<br>• dweud faint o unedau preswyl newydd fydd angen darparu ar eu cyfer a faint o dir fydd ei angen ar gyfer cyflogaeth;<br>• dweud pa rannau o'r ardal fydd yn debygol o dyfu a pha rannau a fydd yn debygol o aros run peth;<br>• cynnwys polisiau allweddol a fydd yn hwyluso'r math o ddatblygiad a fydd ei angen er mwyn ymateb i'r prif faterion sy'n wynebu'r ardal, e.e. tai addas o ran eu math a'u pris |

| | | |
|---|---|---|
| | | sy'n cyfarch anghenion gwahanol grwpiau yn y gymuned, datblygiadau newydd mewn mannau sy'n hygyrch i amrediad o wasanaethau ac yn cynnal gwasanaethau presennol |

13.3 Gwelir isod restr o'r dangosyddion prosiect strategol, sydd yn ceisio mesur cynnydd y prosiect tuag at wireddu'r profiadau y maent yn anelu tuag atynt

| **Dangosyddion Prosiect Strategol:** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Cyrhaeddiad 2014** |
| Adnabod prif faterion a gweledigaeth ar gyfer Cynllun | Bydd y broses hon yn seiliedig ar y sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun a fydd wedi ei sefydlu yn dilyn ymgynghoriad â budd ddeiliaid o safbwynt blaenoriaethau strategol ar gyfer y Sir. | Cytundeb a chysondeb rhwng y Cynllun Datblygu Lleol a blaenoriaethau strategol eraill ar gyfer y Sir. |
| Nifer o unedau preswyl ac arwynebedd tir ar gyfer cyflogaeth o fewn y drafft cyn adnau o'r Cynllun yn cyfarch gofynion lleol. | I'w sefydlu fel rhan o'r broses o sefydlu y sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun. | I'w sefydlu |
| Budd ddeiliaid ac unigolion a fu'n rhan o'r broses ymgynghori ar y drafft cyn adnau o'r Cynllun. | Budd ddeiliaid wedi eu hadnabod o fewn y Cynllun Cyflawni. | Budd ddeiliaid ac unigolion yn cymeryd rhan ac yn cyfrannu i'r broses ymgynghori. |
| Nifer ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft cyn adnau o'r Cynllun. | I'w sefydlu. | Lefel uchel o ymatebion yn cael eu datrys. |
| Cynllun Adnau yn cyfarch y prif faterion strategol i Wynedd sydd wedi eu hadnabod | Dim gwaelodlin. | Asesiad o'r cynllun yn erbyn y weledigaeth a'r prif faterion strategol. |

**ATODIAD 1**

**DANGOSYDDION ALLWEDDOL ANSAWDD GWASANAETH**

Gweler isod restr o'r "dangosyddion allweddol ansawdd gwasanaeth sydd yn ceisio mesur ansawdd gwasanaeth craidd mewn meysydd sydd ddim yn cael sylw penodol yn y rhaglenni

| MAES GWASANAETH | CYFEIRNOD | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD 2009/10 | PERFFORMIAD 2010/11 | TARGED 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | DAN08 | Canran graddau 5 A* - C TGAU neu gyfatebol | 64% | 65% | I'w gadarnhau |
| | Yn cyfateb i: DANS06 | Canran y disgyblion 16 oed sy'n cyrraedd safon sylfaenol yn y pynciau craidd Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol. | 48% | 53% | 47% |
| | Yn cyfateb i: DANS01 | Canran y disgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd ysgol gynradd sy'n cyrraedd safon sylfaenol yn y pynciau craidd Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn ôl yr Asesiad Athro. | 81.3% | 83.2% | I'w gadarnhau |
| | DA03 | Canran y dosbarthiadau ysgol gynradd 7-11 oed â mwy na 30 o ddisgyblion | 4.10% | 0.5% | 2% |
| Y Cyngor | | Lefel cynnydd yn y Dreth Cyngor | 7.99% (Cynnydd dros 2 flynedd) | 12.2% (Cynnydd dros 3 blynedd) | Amrywiaeth o ddim mwy na +/- 1% o gyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru |

| MAES GWASANAETH | CYFEIRNOD | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD 2009/10 | PERFFORMIAD 2010/11 | TARGED 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor (parhad) | | Gwir wariant y Cyngor o'i gymharu â'r gyllideb | Gwariant o fewn y goddefiant derbyniol. | Heb ei adrodd eto. | Adrodd mewn ffurf graff. |
| Salwch, Llythyrau, Galwadau Ffôn, Gofal Cwsmer | | Canran anfonebau (na chafodd eu gwrthwynebu) a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 91% | 91% | 90% |
| | | Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff | 10.02 diwrnod | Heb ei adrodd eto. | I'w gadarnhau |
| | | Canran y galwadau ffôn sy'n cael eu hateb o fewn 15 eiliad | 75.8% | Heb ei adrodd eto. | 78% |
| | | Canran y llythyrau a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith | 80% | Heb ei adrodd eto. | 82% |
| | | Canran o adeiladau'r Cyngor sydd mewn cyflwr da neu dderbyniol. | 77% | Heb ei adrodd eto. | I'w gadarnhau. |
| Amgylchedd/Priffyrdd | PB11b | Canran y prif ffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd â'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol. | 94.6% | Ch2 – 95.74% | 94% |
| | Yn cyfateb i: PB1 | Canran y prif ffyrdd sydd o safon annerbyniol. | 3.8% | Targed – 4.64% | 5.28% |
| | Yn cyfateb i: PB2 | Canran y ffyrdd heblaw priff ffyrdd sydd o safon annerbyniol. | 8.1% | Targed – 11.35% | 12.5% |
| | Yn cyfateb i: PB11a | Canran strydoedd sy'n cyrraedd safon glendid derbyniol. | 66.6% | 69.9% | I'w gadarnhau |

| MAES GWASANAETH | CYFEIRNOD | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD 2009/10 | PERFFORMIAD 2010/11 | TARGED 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Yn cyfateb i: SCC/001a | Canran y plant sy'n cael eu lleoli mewn gofal am y tro cyntaf sydd â chynllun gofal yn ei le. | 100% | Ch3- 100% | I'w gadarnhau |
| | SCC/030a | Canran y gofalwyr ifanc y mae'r gwasanaeth cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt gafodd eu hasesu | 64.81% | Ch3- 100% | I'w gadarnhau |
| | Yn cyfateb i: SCC/006 | Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ar y cam nesaf ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith. | 99.67% | Ch3- 84.04% | I'w gadarnhau |
| | SCC/011a | Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn. | 96.99% | Ch3- 57.1% | I'w gadarnhau |
| | SCC/021 | Canran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlenni statudol yn ystod y flwyddyn. | 73.62% | Ch3- 74.19% | I'w gadarnhau |
| Hylendid Bwyd | GyC8 | Canran y busnesau risg uchel sydd wedi cael adolygiad hylendid bwyd. | 95% | 90% | I'w gadarnhau |
| | Yn cyfateb i: PPN009 Dangosydd Newydd 11/12 | Canran y busnesau bwyd sydd yn cydymffurfio gyda safonau hylendid bwyd. | - | - | Disgwyl gwaelodlin |

| MAES GWASANAETH | CYFEIRNOD | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD 2009/10 | PERFFORMIAD 2010/11 | TARGED 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio | CT2B | % ceisiadau cynllunio (ac eithrio rhai mawr) wedi eu pennu o fewn 8 wythnos | 61.1% | Ch3 – 47.6% | wedi bod yn 66% am y tair blynedd diwethaf. |
| Trwyddedu | GyC6 | % gweithwyr hurio tacsi preifat wedi cael archwiliad yn ystod y flwyddyn | 20% | Ch3 – 51% | 50% |

ATODIAD 2

STRATEGAETH ARIANNOL Y CYNGOR AR GYFER 2011-14

1. Yn unol â'i drefniadau arferol mae'r Cyngor wedi llunio strategaeth ariannol sy'n plethu gyda'r Cynllun Tair Blynedd.

2. Mewn gwirionedd, oherwydd ein bod yn debygol o fod yn wynebu sefyllfa anodd dros gyfnod estynedig, eleni, mae'r Cyngor wedi paratoi strategaeth sy'n ymestyn ymlaen am bedair blynedd i 2014/15 er mwyn sicrhau ein bod yn paratoi ddigon cynnar ar gyfer y sefyllfa anodd yr ydym yn ei wynebu ac sy'n debygol o barhau dros gyfnod tu hwnt i gyfnod y Cynllun hwn.

3. Dros y tair blynedd nesaf dengys y rhagolygon y bydd y grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad yn gostwng 1.4% yn 2011/12; yn aros yr un fath yn 2012/13 ac yn cynyddu tua 1% yn 2013/14.

4. Gan fod tua 80% o wariant y Cyngor yn dod o'r ffynhonnell yma, a chan fod yn rhaid i'r Cyngor barhau i wynebu effaith chwyddiant a chwrdd â'r pwysau cynyddol sy'n disgyn ar ein gwasanaethau, rhagwelir y byddwn yn wynebu diffyg cyllidebol sylweddol dros y pedair blynedd i ddod.

5. 'Rydym wedi ceisio darogan yr hyn y gallasem fod yn ei wynebu o ran diffyg posibl ac ystyried sut y byddwn yn dygymod a sefyllfa o'r fath.

6. Mae'r tabl isod yn nodi maint y diffyg y cynlluniwyd ar ei gyfer a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni hynny –

**Tafluniad cyllidebol at ddibenion cynllunio 2011/12 – 2014/15**

| | **2011/12** | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Diffyg cyllidol a ragwelir | 8.6 | 10.4 | 9.1 | 9.4 | 37.5 |
| Treth Gyngor | (1.9) | (2.0) | (2.4) | (2.1) | (8.4) |
| Arbedion £16m | (5.0) | (5.7) | (1.0) | - | (11.7) |
| Newid polisi cyllidebu | (1.2) | (0.4) | - | - | (1.6) |
| 1% effeithlonrwydd gwasanaeth | - | (1.5) | (1.5) | (2.2) | (5.2) |
| Effeithlonrwydd corfforaethol | (0.5) | (0.7) | (1.2) | (1.8) | (4.2) |
| Codi incwm | - | (0.3) | (0.3) | (0.2) | (0.8) |
| Toriadau | - | 0.2 | (2.7) | (3.1) | (5.6) |

7. Daw'r ffigwr ar gyfer y diffyg cyllidol rhagweledig o £37.5m o dafluniadau a wnaed o sefyllfaoedd posibl o ran y grant a geir gan y Cynulliad a'r chwyddiant a ragwelir ynghyd a'r pwysau sy'n debygol o ddisgyn ar wasanaethau. Yn naturiol, cyfrifiad ar gyfer cynllunio yw hwn a bydd y gwir sefyllfa yn sicr o newid fel yr aiff amser yn ei flaen.

8. Fe welir ein bod yn ystyried y gallwn godi tua £8.4m drwy gynyddu'r Dreth Gyngor ac eisoes mae gennym £11.7m y gallwn ei ddefnyddio o'r arbedion o £16m y bu i ni eu darganfod y llynedd.

9. Fe welir fod gweddill y strategaeth yn canolbwyntio ar ddarganfod arbedion effeithlonrwydd gan awgrymu y byddwn angen darganfod toriadau o tua £5.6m yn y ddwy flynedd olaf. Fodd bynnag, amcan y Cyngor yw ceisio darganfod hyd yn oed mwy o arbedion effeithlonrwydd er mwyn osgoi gymaint ag y gallwn, unrhyw doriadau i wasanaeth.

10. Nid yw hynny'n golygu wrth gwrs na fydd ein trigolion yn gweld gwahaniaethau i wasanaethau. Bydd angen i ni sicrhau ein bod yn darganfod dulliau arloesol a gwahanol i gwrdd ag anghenion ein trigolion er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau prin sydd ar gael a thra byddwn yn parhau i ofalu am ein trigolion mwyaf bregus - mae bron yn anorfod y bydd hynny'n golygu fod yn rhaid i ni fod yn ddyfeisgar wrth wneud hynny.

11. Yn amlwg, mae'r gwaith o ddarganfod arbedion am fod yn dasg enfawr ac fe gydnabyddir hyn yn y Cynllun Tair Blynedd, ond mae'r cynllun hefyd yn diffinio ein huchelgais ar gyfer trigolion Gwynedd ac er mwyn cyflawni hyn bydd angen buddsoddi er mwyn cyflawni'r uchelgais hwnnw.

12. Eisoes mae'r Cyngor wedi gosod cronfa o dros £3m o'r neilltu er mwyn ariannu'r Cynllun ac mae'r tafluniadau gwariant a wnaed ar gyfer cyfrifo'r diffyg a nodir uchod hefyd yn cynnwys cyllideb barhaol o £2m wedi ei rannu dros y tair blynedd nesaf er mwyn ariannu unrhyw wariant parhaol.

13. Gyda'i gilydd felly mae'r strategaeth ariannol a luniwyd ar gyfer y cyfnod i ddod yn gwneud dau beth - sef sicrhau fod gennym gyllideb gytbwys tra ar yr un pryd yn sicrhau fod gennym yr adnoddau angenrheidiol i wireddu uchelgais y Cyngor ar gyfer ei drigolion.

**ATODIAD 3**

**DANGOSYDDION PERFFORMIAD CENEDLAETHOL**

Dangosyddion a adroddir yn unol â Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) (Cymru) 2010

| MAES GWASANAETH | CYFEIRNOD | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD 2009/10 | PERFFORMIAD 2010/11 | TARGED 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | DP1 SCA/001 | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd. | 7.87 | 7.84 | I'w gadarnhau |
| | DP2 SCA/002 | Cyfradd;<br>(a) pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth idydnt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawth;<br>(b) pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. | a) 107.64<br>b) 28.47 | a) Heb adrodd eto<br>b) Chwarter 3: 27.11 | I'w gadarnhau |
| | DP3 SCC/002 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | 22.81 | Heb adrodd eto | I'w gadarnhau |

| MAES GWASANAETH | CYFEIRNOD | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD 2009/10 | PERFFORMIAD 2010/11 | TARGED 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol (parhad) | DP4 SCC/037 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhywsefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol. | 128.5 | Heb adrodd eto | I'w gadarnhau |
| | DP5 SCC/033 | Canran;<br>(a) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed;<br>(b) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed;<br>(c) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysyllitad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed. | a)90%<br>b)77.78%<br>c)33.33% | a) Chwarter 3 100%<br>b) Chwarter 3 83.33%<br>c) Chwarter 3: 38.89% | I'w gadarnhau |
| Tai | DP6 HHA/013 | Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf. | 95.17% | Heb adrodd eto | I'w gadarnhau |

| MAES GWASANAETH | CYFEIRNOD | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD 2009/10 | PERFFORMIAD 2010/11 | TARGED 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai (parhad) | DP7<br>PSR/002 | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | 359 | 287 | Bwrdd Rhaglen i bennu |
| | DP8<br>PLA/006 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. | 25 | Heb adrodd eto | I'w gadarnhau |
| | DP9<br>PSR/004 | Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. | 2.54% | Heb adrodd eto | I'w gadarnhau |
| Addysg | DP10<br>EDU/002 | Canran;<br>(a) yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); a<br>(b) y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol,<br>sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd. | 0.14<br>12.5 | 0.40 | I'w gadarnhau |

| MAES GWASANAETH | CYFEIRNOD | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD 2009/10 | PERFFORMIAD 2010/11 | TARGED 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg (parhad) | DP11<br>EDU/003 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | 384 | 395 | I'w gadarnhau |
| | DP12<br>EDU/015 | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau;<br>(a) gan gynnwys eithriadau; a<br>(b) heb gynnwys eithriadau. | a)73.8<br>b) 100.00 | Heb adrodd eto | I'w gadarnhau |
| Rheoli Gwastraff | DP13<br>WMT/009 | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall. | **WMT/001**<br>**PB20** –<br>Ail ddefnyddio ac ailgylchu = **20.31%**<br><br>**PB21** –<br>Biolegol a compostio = **21.01%** | **WMT/008**<br>**PB48** chwarter 3<br><br>i) ail ddefnyddio = **0.42%**<br>ii) ailgylchu = **21.26%**<br>iii) biolegol a compostio = **23.73%** | Rhaglen Amgylchedd<br>i) ailddefnyddio = **0.75%**<br>i) ailgylchu = **23%**<br>ii)biolegol a compostio = **25%** |
| | DP14<br>WMT004 | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi. | 57% | Chwarter 3<br>53.2% | 58% |
| | DP15<br>STS/006 | Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 diwrnod gwaith. | 95% | Chwarter 2<br>95% | 95% |

| MAES GWASANAETH | CYFEIRNOD | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD 2009/10 | PERFFORMIAD 2010/11 | TARGED 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trafnidiaeth/Priffyrdd | DP16 THS/007 | Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws. | 73.30 | Heb adrodd eto. | I'w gadarnhau. |
| Diwylliant a Chwaraeon | DP17 LCS/002 | Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. | 13598 | Heb adrodd eto. | 12644 |
| | DP18 LCL/001 | Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth. | 3750 | Heb adrodd eto. | 3664 |
| Effeithlonrwydd Ynni | DP19 EEF/002 | Canran y newid mewn allyriadau carbon deuocsid yn stoc adeiladau cyhoeddus annomestig. | 3.75% | Heb adrodd eto. | 5% |
| Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | DP20 BNF/004 | Yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau newydd a rhai'n gysylltiedig ag amgylchiadau wedi newid o ran Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. | 12.1 | 14.9 | 13 |
| Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | DP21 BNF/005 | Y nifer o weithiau y mae amgylchiadau'n newid sy'n effeithio ar hawl cwsmeriaid i gael Budd-daliadau Tai neu Fudd-daliadau'r Dreth Gyngor o fewn y flwyddyn. | 1229.6 | Adran Gwaith a Phensiynau wedi datgan na fydd gwybodaeth ar gael er mwyn gallu adrodd ar y dangosydd yma ar ôl Chwarter 3 2010/11. Y dangosydd yn cael ei ddileu ar gyfer 2011/12. | |